------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 2 Hydref 2014**

Amser:
**08.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Bethan Davies**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8120
PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

## Agenda
MeetingTitle

**Cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Medi y byddai eitem 1 yn cael ei chynnal yn breifat**

### 1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Adroddiad rhag-gyllidebol gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) (08:30-09:00) (Tudalennau 1 - 27)

FIN(4)-16-14 Papur 1

Don Peebles - Pennaeth (CIPFA) yr Alban a Chynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor

**Cyfarfod cyhoeddus**

### 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)

### 3 Papurau i'w nodi (09:00 - 09:05) (Tudalennau 28 - 30)

**Craffu ar y Cynnig ynghylch Cyllideb Atodol 2014--2015: Ymateb Llywodraeth Cymru** (Tudalennau 31 - 42)

## 4 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015-16 (09:05-10:15) (Tudalennau 43 - 97)

FIN(4)-16-14 Papur 2
FIN(4)-16-14 Papur 3
Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Y Fonesig Rosemary Butler AC - **Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn**
Claire Clancy – Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Nicola Callow – Cyfarwyddwr Cyllid

**Egwyl (10.15-10.30)**

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Sesiwn dystiolaeth 1 (10:30-12:30) (Tudalennau 98 - 124)

FIN(4)-16-14 Papur 4

Jane Hutt AC - y Gweinidog Cyllid
**Jo Salway - Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru**
**Matt Denham- Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau, Llywodraeth Cymru**
**Jeff Andrews – Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol: (12:30)

Eitemau 7, 8 a 9

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Trafod y dystiolaeth a gafwyd (12:30-13:00)

## 8 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2015-16: Trafod y dystiolaeth a gafwyd (13:00 - 13:30)

## 9 Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Gohebiaeth y Pwyllgor (13:30-13:45) (Tudalennau 125 - 140)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

## Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 24 Medi 2014** |
| Amser: | **09.00 – 11.38** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/84314157-fcc1-4513-98d5-26f7d93bc90b?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Nick Ramsay AC** |
| Tystion: | **Robert Chote, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol**<br>**Laura van Geest, Canolfan CPB yr Iseldiroedd ar gyfer Dadansoddi Polisi Economaidd**<br>**Wim Suyker, Canolfan CPB yr Iseldiroedd ar gyfer Dadansoddi Polisi Economaidd** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Richard Bettley (Ymchwilydd)**<br>**Helen Jones (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

TRAWSGRIFIAD
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.**

**1.2 Croesawodd y Cadeirydd Nick Ramsay i'r Pwyllgor fel Aelod a diolchodd i Paul Davies am ei waith, gan hysbysu'r Aelodau y byddai'n ysgrifennu ato.**

# 2 Papurau i'w nodi

**2.1 Nodwyd y papurau.**

2.1 Cyllid addysg uwch: Llythyr gan Darren Millar AC (30 Gorffennaf 2014)

2.2 Y Bil Addysg Uwch (Cymru): Llythyr gan Addysg Uwch Cymru (31 Gorffennaf 2014)

2.3 Adroddiad Alldro Llywodraeth Cymru 2012-13: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid (5 Awst 2014)

2.4 Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru): Llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (29 Awst 2014)

# 3 Ymchwiliad i'r arferion gorau o ran y gyllideb - Rhan II: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Laura van Geest, Cyfarwyddwr, a Wim Suyker, Arweinydd y Rhaglen yn y Biwro CPB yr Iseldiroedd ar gyfer Dadansoddi Polisi Economaidd, yn Rhan II o'r ymchwiliad i'r arfer gorau mewn prosesau cyllidebol

# 4 Ymchwiliad i'r arferion gorau o ran y gyllideb - Rhan II: Sesiwn dystiolaeth 2

**4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Robert Chote, Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb, yn Rhan II o'r ymchwiliad i'r arfer gorau mewn prosesau cyllidebol.**

# 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

# 6 Ymchwiliad i'r arfer gorau mewn prosesau cyllidebol - Rhan II: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

6.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru): Goblygiadau Ariannol y Bil

7.1 Trafododd yr Aelodau'r papur briffio ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru), gan gytuno y byddent yn gwahodd Bethan Jenkins AC, yr Aelod sy’n Gyfrifol, i ateb cwestiynau ar oblygiadau ariannol y Bil fel y mae ar hyn o bryd.

7.2 Cytunodd Ann Jones i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y gwaith craffu ariannol ar y Bil wrth i’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg graffu arno yng Nghyfnod 1.

## 8 Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon 2013 - 2014

8.1 Trafododd yr Aelodau'r papur gan RSM Tenon ar Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a Chyfrifon 2013-14 a chytunwyd nad oeddent am i gynrychiolydd o RSM Tenon fod yn bresennol wrth i’r Pwyllgor drafod Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a Chyfrifon 2013-14 ym mis Tachwedd.

8.2 Bydd y Clerc yn ysgrifennu at RMS Tenon yn rhoi gwybod am y penderfyniad hwn, gan hefyd wneud cais am grynodeb byr o'r papur.

## 9 Y flaenraglen waith

9.1 Nododd yr Aelodau'r rhaglen waith. Trafododd yr Aelodau’r posibilrwydd o ymweld â Senedd yr Alban a bydd yn rhoi gwybod i'r Clerc os ydynt ar gael. Awgrymodd yr Aelodau hefyd feysydd gwaith ar gyfer ymholiadau yn y dyfodol a fydd yn cael ei ystyried yn nes ymlaen.

Eitem 3.1

**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Jocelyn Davies AM
Chair, Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

19 September 2014

Dear Jocelyn,

**FINANCE COMMITTEE'S REPORT: SCRUTINY OF SUPPLEMENTARY BUDGET - July 2014**

Thank you for your letter of 10 July enclosing a copy of the Finance Committee's report on the Welsh Government Supplementary Budget - July 2014.

I enclose a note at Annex A, which responds to the recommendations contained within the Committee's report on the First Supplementary Budget 2014-15.

Best wishes,
Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*

# Response to Recommendations in Finance Committee Report

## Programme for Government

**Recommendation 1: While the Committee recognises that the Government is making progress in this area, and that there are a number of difficulties in presenting the budget allocations against the Programme for Government, we still expect to see continual progress towards linking budget allocations to the Government priorities in each budget round.**

The Welsh Government welcomes the Finance Committee's acknowledgement of the progress that has been made to improve the transparency and presentation of its spending plans, including the progress made in previous Draft Budgets to draw out the links between the Programme for Government (PfG) and budget allocations.

As the Minister for Finance and Government Business set out in her letter of response on the 9 September to the Finance Committee's report on best practice budget processes, the Government and Committee have a shared objective to understand more about how allocations link to the objectives of spend. In this regard, the significance of the Well-being of Future Generations Bill and the anticipated improvements in performance management and scrutiny will combine to shape how the Government plans and reports in future. In taking this work forward, it will be important to take the opportunity of developing a fresh approach, which supports the clarity and transparency we strive for. As the Minister for Finance and Government Business has indicated, the Government is keen to build a strong evidence base around current experience and practice of the budget process and scope for improving it.

Alongside this work, we will continue to describe, in our Budget narrative, what will be delivered through the budget allocations to each Main Expenditure Group. This year's Programme for Government Annual Report was a step forward in aligning targets to the process we make.

## Pupil Deprivation Grant and 1% Schools Protections

**Recommendation 2: The Committee welcomes that the additional money for pupil deprivation grant is administered through the regional consortia directly to schools. However, the Committee feels that there is some confusion and misunderstanding around the 1% increase for schools, and whether the pupil deprivation grant is additional to this. We believe that a clearer explanation is needed with regards to what is meant by the 1% increase to help schools plan effectively and would recommend that this is published alongside the data on the 1% protection.**

The Welsh Government recognises the importance of being open and transparent, particularly in terms of the delivery of its key commitments. That is why, in the context of the 1% protection for schools funding, the former Minister for Local Government and Government Business wrote to all Local Authorities in Wales to explain how the schools protection would be funded in 2014-15. Following this, the former Minister for Local Government and Government Business also wrote to all Assembly Members on 22 July to provide information which shows that local authorities in Wales have met, and in many cases exceeded, the required protection for front-line schools spending in each year since the beginning of this Assembly term.

Whilst these steps reflect our commitment to provide clarity on the delivery of the schools protection, the Welsh Government recognises that the funding arrangements for schools are complex. In light of this, the Minister for Finance and Government Business is considering options for providing further information on how we are delivering the commitment to increase schools funding by 1% above changes to the DEL.

**Capital – Wales Infrastructure Investment Plan**

**Recommendation 3: While the Committee understands that there may be a significant number of projects that fall under the threshold, there needs to be a centrally held list of these projects, and more information published about these projects. Projects valued at just under £15 million are a significant investment and should be mapped against the WIIP. The release of this information could be done via banded information or through releasing information about WIIP projects above a certain cut off point, for example £1 million. This is essential to be able to establish links between the WIIP and the budget.**

As outlined to the Committee in July, since May 2012 the Wales Infrastructure Investment Plan pipeline has detailed all nationally strategic and significant Welsh Government investments with a total scheme value of over £15m and more recently, local authority investments over £2m and private sector rail and energy schemes. Further to the Committee's request to receive additional information on the number and total value of the projects which fall under the £15m threshold, a geographical breakdown of Welsh Government capital investments with a total value of £500k, is provided at Annex B.

**Recommendation 4: The Committee believes that it is important to consider the outcomes of any proposed capital projects to make sure the projected savings are achieved.**

Maximising the value for money provided by our investments is a priority of our Wales Infrastructure Investment Plan (WIIP). Central to this is high quality business assurance and scheme delivery across the Welsh Government and the wider public sector. Over recent years, we have taken steps to introduce a standardised best practice approach to business case development and appraisal, better monitoring of investments and a new approach to management and control of major schemes.

Since we published the WIIP, we have invested available Welsh Government capital Reserves in line with our investment priorities. Through our Better Business Case best practice, approach, business cases are in place for all schemes to achieve best value for money as well as monitoring and evaluation arrangements to measure their progress and the outcome.

This process is designed to ensure that capital investments represent value for money and will deliver our policy objectives. We invest capital to achieve a range of objectives, including but not exclusively the delivery of more efficient and economical public services. Where this is the objective, it is important to understand that against the backdrop of austerity this can be investing to limit the upward trend in costs, rather than achieving cash savings per se. As the population and the expectation of public service provision increases, so do the costs.

Additionally we use the better business case process to reduce costs of projects over their life span. Where our investments are delivering savings (over original estimates) during the construction phases, the monies are often recycled back into the schemes. For example some of the 21$^{st}$ Century school investments have used construction savings to increase the scope of the service provision provided by the facilities.

A further category of savings relates to preventative spend. The Welsh Government is investing for a sustainable future. Our flood investments for example do not directly save money, however they do protect Welsh citizens and significant infrastructure assets, reducing environmental damage and ongoing maintenance costs to the private and public purse. In addition our Arbed and Nest energy efficiency schemes do not produce direct savings for the public sector expenditure, but instead they enable individual citizen's to live in more efficient properties, reducing the individual energy bills.

In the evidence session on the First Supplementary Budget 2014-15, the Minister for Finance and Government Business agreed to provide the Committee with examples of schemes which have delivered cost savings. Details are provided at Annex C.

**Budget Process**

**Recommendation 5: The Committee recommends that any in year announcement from a Minister tied to a funding allocation sets out clearly where funding is being sourced, whether from existing departmental budgets, or a transfer from reserves or another department.**

The Welsh Government recognises the importance of providing clarity on the costs and sources of funding for in-year announcements.

As the Minister for Finance and Government Business acknowledged in Committee, this information can be helpful and constructive as part of financial scrutiny. In this context, the Welsh Government will look to ensure that it provides greater clarity on issues of funding.

**Recommendation 6: The Committee recommends that the Welsh Government publish all Barnett consequentials (both positive and negative) as they come through from the UK Government. The Committee believes that this would help make the consequentials more easily identifiable and transparent.**

The Welsh Government acknowledges the Committee's interest in receiving information regarding Barnett consequentials and will look to provide information on the impact of consequentials on the Wales DEL following UK Government fiscal events.

## Annex B - Welsh Government capital investments

Table 1 below provides a breakdown of the data that we currently have available. The map at Figure 1 illustrates how the postcode areas relate to the economic regions.

The following points should be noted when considering validity of the data:


- The data is a snapshot of Welsh Government capital investments collated from departments, in July 2014 with a total scheme value of over £500,000;
- Whilst every effort has been taken to ensure the widest scope of Welsh Government schemes are captured, due to commercial sensitivities it cannot be guaranteed that all investments are captured;
- Total scheme value includes a combination of Welsh Government funding and other funding sources from across the private sector, public sector and European funds;
- Geographical location of investment has been determined where possible using a postcode indicator;
- Welsh Government investment figures for 2014-15 were correct as of July 2014.

**Table 1.** Capital Spend per Region and postcode area

| Economic Region | No. of Schemes | 2014-15 WG Forecast | Total WG capital investment £m | Total scheme value £m* |
|---|---|---|---|---|
| **All-Wales** | 73 | 312.238 | 1,260.499 | 2,163.291 |
| **North Wales**<br>Postcode Area:<br>• Chester<br>• Llandudno<br>• Shrewsbury | 182 | 199.006 | 938.961 | 1,570.100 |
| **Mid Wales**<br>Postcode Area:<br>• Llandrindod Wells<br>• Newport<br>• Shrewsbury<br>• Swansea** | 79 | 73.312 | 343.769 | 466.293 |
| **South-East Wales**<br>Postcode Area:<br>• Cardiff<br>• Newport | 399 | 344.872 | 4,073.293 | 5,543.566 |
| **South-West Wales**<br>Postcode Area:<br>• Swansea** | 192 | 174.150 | 1,135.489 | 1,904.689 |
| **Total** | 925 | 1,103.577 | 7,716.011 | 11,647.939 |

* includes Welsh Government and other sources of funding
** postcode area spans multiple economic regions – see Fig.1

**Figure 1.**


WALES
Ecomonic Regions & Postcode Areas
ISLE OF ANGLESEY
NORTH WALES
CONWY
LL
FLINTSHIRE
CH
DENBIGHSHIRE
WREXHAM
GWYNEDD
SY
Economic Region
MID WALES
Postcode Area
Local Authority Boundary
CARDIFF
POWYS
MID WALES
CEREDIGION
LD
HR
SA
PEMBROKESHIRE
CARMARTHENSHIRE
SOUTH WEST WALES
MERTHYR TYDFIL
BLAENAU GWENT
NP
GL
TORFAEN
MONMOUTHSHIRE
NEATH PORT TALBOT
SWANSEA
RHONDDA CYNON TAF
SOUTH EAST WALES
CAERPHILLY
CF
NEWPORT
BRIDGEND
CARDIFF
VALE OF GLAMORGAN
© Crown Copyright and database right 2014.
Ordnance Survey 100021874
Cartographics • Welsh Government • ML/15/14.15
April 2014

# Annex C - Examples of capital projects which have delivered cost savings

**Health**

**Cardiff & Vale University Health Board (C&VUHB) – Development of an Adult Acute Mental Health Unit, University Hospital Llandough (UHL)**

The scheme will bring together all general adult mental health inpatient services from Whitchurch Hospital and the Llanfair Unit at UHL and also specialist services for clients requiring low secure, addiction, neuropsychiatry, intensive care, supportive recovery services along with associated therapy and support services. Work commenced in August 2013. Anticipated completion January 2016

- Benefits/outcomes: One of the main outcomes and benefits to be derived from the proposed investment is to improve quality, safety and effectiveness of acute inpatient care for adults with mental health problems in modern facilities which is designed to ensure:

    - Improved access to specialist support;
    - Gender specific accommodation;
    - Reduction in stigma;
    - Meets expectations for privacy, safety, dignity, accessibility, cultural background;
    - Improved access to physical healthcare, including diagnostics;
    - Improved access to mental health advice and support and reduction of disruption to care programme and exposure to stressful situations for those requiring other healthcare provision.
    - Consistent quality of service for residents of both Cardiff and the Vale of Glamorgan;

- Total costs: The total project cost and total Welsh Government Funding will be £88m.

- Savings: The business case identifies revenue savings of £0.434 million per annum as a result of the overall reduction in beds, together with economies of scale arising from the co-location of mental health services on the UHL site.

**Health Vision Swansea Phase 1B scheme 2 - Development of clinical support and diabetic services accommodation at Morriston Hospital.**

The scheme will develop a new accommodation block for Clinical Support and Diabetic Services Accommodation, a new sub-station and site rationalisation at Morriston Hospital. Diabetic clinical accommodation is temporarily located in refurbished accommodation.

- Benefits/outcomes: The proposed development will provide proximity for the Diabetic clinic to core services and enable access to DDA-compliant car parking.

It will be fully compliant with national best practice in terms of layout and configuration, and sited in a fully complaint stand-a-lone clinic with easy access for patients. The development will also provide compliant, clinical and administrative accommodation for over 562 people who are located within the oldest and poorest quality; non compliant accommodation parts of Morriston Hospital, or inappropriately within clinical areas on wards. These include consultants and clinical support staff, renal support staff, and capital planning staff, and staff providing Diabetic Clinical services and the Health Board's Occupational Health services.

The full business case (FBC) is due to be submitted by the Health Board in early August which could enable the full start on site to occur in September 2014. With a 53 week build programme, the completion is currently projected to be late 2015. Opening of the facility is likely to be 4-6 weeks later once all of the equipment has been delivered and operational commissioning complete.

- Total costs: The total investment is £18.443m, including non-recoverable VAT.

- Savings: The outline business case projects that it will deliver recurring revenue savings from 2016-17 of £1.001m.

**Powys Teaching Health Board – Integrated Health and Social Care Centre for Builth Wells**

Powys teaching Health Board and Powys County Council working in partnership with the Community Health Council, Powys Association of Voluntary Organisations, local GP's and other community stakeholders to develop a new model of integrated health and social care services for Builth Wells. The new facility replaces Builth Cottage Hospital which closed in January 2013. The ground floor provides a range of patient services whilst the upper floor houses a 12 bedded, GP managed in-patient facility.

Services include: wound care, minor surgery, dentistry and a range of consultant outpatient clinics. The latter include age care medicine; urodynamics and prostate assessment clinic; and palliative care.

- Benefits/outcomes: Extended community nursing hours into the evenings, extending the options for care at home especially palliative care that is mostly currently provided in Powys hospitals
    - A reablement service that will provide domiciliary physiotherapy and occupational therapy to assist people to adapt to remaining at home after illness
    - Faster access to domiciliary social care services to provide a rapid response care service for people in urgent need
    - Provision of a minimum framework of third sector Tier 1 services in line with a model of services being developed across
    - Hospice at home services provided by the third sector

- Total costs: Total capital costs £5.25m

- Savings: In terms of revenue, Powys Local Health Board state that this scheme generates significant recurring revenue savings, of c. £0.7m per annum.

**Education**

**Abercynon Community Primary School, RCT**

The project for a new build community primary school at Abercynon, Rhondda Cynon Taf was approved under the Transitional 3 School Buildings Grant Programme.

- Benefits/outcomes: The project delivered a brand new 2 storey, 420 place primary school with SEN provision.

- Total costs: The total project cost was £8,871,697, with Welsh Government contribution of £6,210,188 and Local Authority funding of £2,661,509.

- Savings: Capital savings of circa £1.8m were realised on this project. The savings were primarily generated due to good economic conditions, the procurement strategy used and other efficiencies. In November 2013, Welsh Government's Capital Investment Panel agreed to approve the re-investment of the £1.8m into a Welsh medium primary school (Llwyncrwn, Beddau) where substantial refurbishment would take place including the use of standardised build product.

**Ysgol y Gogarth, Conwy**

The project was approved under the Transitional (Tranche 3) Funding Programme, for a new build Special Education Needs School in Llandudno, for the county. The new two storey school replaced the existing 1960's one storey school and also provided new residential for approximately 180 pupils between the ages of 3 and 19, with a wide range of disabilities and individual needs, in more inspirational environments

- Benefits/outcomes: Conwy local authority had a strategic vision for their additional learning needs provision, which was to central provision for the county on to one site. This project met this vision, delivering a school facility with specialist facilities, such as a hydrotherapy pool, light room, quiet room, an ICT suite, Sensory & Autism classes, outdoor learning environments, outdoor pursuits facilities and vocational areas such as horticulture, car valeting. The school also serves as an exceptional central facility to allow disabled/ALN students from primary to secondary school age to be educated in county and have better access to education social workers and clinics that they require.

- Total costs: The total project cost was circa £18.157 million, with a Welsh 70% contribution of circa £12.701 million and local authority funding circa of £5.456 million.

- Savings: Capital savings of circa £3.807 million on the original project cost of circa £21.964 million have been realised on this project. The savings were primarily made through value engineering as part of the procurement process.

**Flood and Coastal Risk Management**

**Colwyn Bay**

The Colwyn Bay scheme renewed existing coastal defences and raised beach levels to reduce risk to homes, businesses and infrastructure.

- Benefits/outcomes: Reduced risk from coastal flooding to 200 homes and businesses, the North Wales mainline railway and the A55. The project also allowed for economic growth and regeneration of the area in the form of a revitalized waterfront, promenade and beach area and improved recreation, sport and tourism facilities

- Total costs: This was jointly funded through Welsh Government (FCERM and Regeneration budgets), European Regional Development Fund and Conwy County Borough Council. Total project costs (including regeneration element) was £11 million. £5million of which was for the coastal defence work (£2.287 million ERDF and £2.713 million WG).

- Savings: Direct savings of around £1-2 million were made during this project by working on the coastal flood defence and regeneration work in tandem rather than separately.

**Energy efficiency**

**Arbed 2 ERDF**

The Arbed 2 ERDF area based energy efficiency scheme is a £45 million programme that has a £33 million investment from the European Regional Development Fund (ERDF). The scheme is scheduled to run from 2012 to 2015 and targeted with the improvement of nearly 4800 homes and the creation of 283 new jobs. The scheme has to date completed over 3000 homes and exceeded the jabs target by creating over 470, these included 107 new employment opportunities for people that live in or near Tackling Workless Households (TWH) Communities First clusters.

In addition to delivering energy efficiency improvements to Welsh homes across Wales Arbed 2 ERDF is having a wider impact and benefit on our communities that are in addition to the original plan; Fochriw in Caerphilly has benefitted from the installation of solar PV panels at the local community hall, which is the hub of the village. The system has been provided free of charge to the community by the SMEs and supply chain companies who have been working in the village. The system will provide sustainable low cost energy to the community hall as well as a long term income through the 'feed in tariff'.

The Arbed scheme managers have also worked in the development of the ‘Value Wales Community Benefit Tool’ and have realised up to a £2 return into the local communities for every £1 of investment by the scheme.

**Nest**

The Welsh Government’s fuel poverty programme ‘Nest’ has helped over 56,000 householders with advice and support to reduce their fuel bills, increase their income, and improve the energy efficiency of their homes, since the scheme started in April 2011, this exceeds the schemes targets of 45,000 in the same period. Over 13,400 of these householders, who were on low incomes and living in the most energy inefficient homes, received a package of free home energy improvements.

These improvements are estimated to deliver average energy bill savings of over £475 per household per year, making a real difference to people who are struggling with the impact of flat-line or falling incomes and Welfare Reform, in addition to significant energy price rises.

Nest is working in partnership with the Prince’s Trust to launch ‘Get into Engineering’ Local SMEs working on Nest are involved and as part of this 30 young people will attend a ‘taster day’. 15 of these young people will go on to participate in an agreed programme of training and work experience.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cyllideb Ddrafft 2015-16
# Adeiladu ar Fuddsoddi a Newid

Medi 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae crynodeb o'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg a Chymraeg ar gais.

Os oes angen copi o'r adroddiad hwn arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch Cyfathrebu'r Cynulliad:


**Cyfathrebu'r Cynulliad**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.assemblywales.org**
E-bost: **Cyfathrebu@cymru.gov.uk**

Ffôn: 0845 010 5500/01492 523 200


Rydym hefyd yn croesawu galwadau gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyfnewid testun. I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, dylech alw'r rhif a ganlyn: **18001 0845 010 5500**.


**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cyllideb Ddrafft 2015-16
# Adeiladu ar Fuddsoddi a Newid

Medi 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales


AGORWYD GAN EI MAWRHYDI
OPENED BY HER MAJESTY

# Comisiwn y Cynulliad

Etholwyd Comisiynwyr y Cynulliad gan Aelodau mewn Cyfarfod Llawn ar 25 Mai 2011. Ynghyd â'r **Llywydd**, sy'n cadeirio'r Comisiwn, y Comisiynwyr yw Peter Black AC, Angela Burns AC, Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC.



**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, sydd â'r prif gyfrifoldeb am Gysylltiadau, a datblygiad proffesiynol Aelodau a'u staff.



**Angela Burns AC**
Cyllideb, llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio. Cysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Gwella gwasanaethau i Aelodau. Y Comisiwn fel cyflogwr staff y Comisiwn.



**Peter Black AC**
TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth. Ystad y Cynulliad a Chynaliadwyedd.



**Sandy Mewies AC**
Gwasanaethau addysg, blaen tŷ, cyfleusterau'r Cynulliad, manwerthu, arlwyo a diogelwch. Swyddogaethau cydraddoldeb statudol y Comisiwn.



**Rhodri Glyn Thomas AC**
Swyddogaethau a pholisi iaith Gymraeg y Comisiwn. Gwasanaethau Cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth.

## Y Pedwerydd Cynulliad - dogfennau cysylltiedig ar ein gwefan

- **Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad**
  **www.cynulliadcymru.org/fourth_commission_strategy.pdf**
- **Cynllun wedi'i ddiweddaru i gyflawni strategaeth y Comisiwn**
  **http://www.assemblywales.org/NAfW%20Documents/About%20the%20Assembly%20section%20documents/Updated%20Plan%20to%20deliver%20the%20Commission%27s%20Strategy/strategy-2014-16%20cymraeg.pdf**
- **Materion Allweddol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad**
  **http://www.assemblywales.org/NAfW%20Documents/11-026.pdf%20-%2020102011/11-026-Cymraeg.pdf**
- **Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol**
  **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgissueHistoryHome.aspx?lid=6022**
- **Cyllidebau ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad**
  **http://www.cynulliadcymru.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/about_us-commission_publications/Pages/about_us-commission_publications.aspx**
- **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad**
  **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=375**

# Cynnwys

**01. Cyflwyniad** ........ **6**

**02. Cyllideb 2015-16** ........ **8**

**03. Y pum maes â blaenoriaeth wedi'u diweddaru** ........ **12**

03.1. Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r cymorth a ddarparwn ........ 12

03.2. Gwasanaethau dwyieithog gwell ........ 17

03.3. Ymgysylltu'n well â phobl yng Nghymru ........ 18

03.4. Gwneud y gorau o'n hystad ........ 21

03.5. Y tu hwnt i'r Pedwerydd Cynulliad ........ 24

**04. Cyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau annibynnol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad** ........ **26**

**05. Cwmpas y Gyllideb** ........ **28**

**Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb** ........ **30**

**Atodiad 2: Gwybodaeth ariannol** ........ **32**

**Atodiad 3: Geirfa** ........ **33**


15:35

# 01. Cyflwyniad

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn helpu i'w wneud yn ddeddfwrfa ddemocrataidd gref, hygyrch a blaengar sy'n cyflawni'n effeithiol dros bobl Cymru.

Mae nodau strategol y Comisiwn wedi bod yn ganolbwynt i'n gwaith ers 2011 ac maent yn ddigyfnewid. Y nodau yw y byddwn yn:

– Darparu cymorth seneddol rhagorol

– Ymgysylltu â phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru

– Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Datblygodd y Comisiwn gynlluniau gan nodi blaenoriaethau allweddol. Mae'r diweddaraf o'r rhain yn nodi blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y ddwy flynedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn.

**http://www.assemblywales.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-commission.htm**

Yn ogystal, sefydlodd y Comisiwn ddangosyddion perfformiad allweddol, gan ddarparu tystiolaeth o ymrwymiad a datblygiad pobl Cymru, Aelodau a staff y Comisiwn mewn adroddiadau perfformiad corfforaethol cyson, a gaiff eu cyhoeddi.

**http://www.assemblywales.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/about_us-commission_publications/key_performance_indicator_reports.htm**

Yn 2011, nododd y Comisiwn strategaeth gyllideb tair blynedd glir ar gyfer gwella gallu a medrusrwydd gwasanaethau'r Cynulliad er mwyn cyflawni nodau strategol y Comisiwn. Hyrwyddodd strategaeth y gyllideb yr angen i fuddsoddi yn y canlynol: cymorth i'r Aelodau a'u cyfrifoldebau deddfwriaethol newydd; yr ystad fel lleoliad i Gymru; cysylltiadau a thechnoleg; a'r modd y mae'r Cynulliad yn gweithio fel corff corfforaethol effeithlon. Cymeradwyodd y Comisiynwyr, y Pwyllgor Cyllid a'r Cynulliad cyfan y strategaeth fuddsoddi tair blynedd hon i gyflawni nodau a blaenoriaethu'r Comisiwn. Mae ein hanghenion cyllidebol wedi cael eu cefnogi ac mae'r Comisiwn wedi sicrhau bod trefniadau ariannol cadarn yn bodoli i sicrhau arbedion gwerth am arian lle bo'n bosibl, rheoli costau lle bo'n briodol a buddsoddi lle bo angen.

Rhaid i'r Comisiwn barhau i gynnal safonau uchel wrth gyflawni'r ystod lawn o fusnes beunyddiol yn ogystal ag adeiladu ar y buddsoddiad sylweddol a fydd wedi cael ei gwblhau yn ystod pedair blynedd gyntaf y Pedwerydd Cynulliad, gyda buddsoddiad pellach arfaethedig o £1.6 miliwn yn 2015-16. I gefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae pum maes â blaenoriaeth wedi'u diweddaru ar gyfer newid, arloesed a buddsoddiad ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn:

– Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r cymorth a ddarparwn, gan gynnwys drwy effaith camau nesaf ein Strategaeth TGCh;

– Gwasanaethau dwyieithog gwell;

– Ymgysylltu'n fwy â phobl yng Nghymru;

– Gwneud y gorau o'n Hystad; a

– Cwblhau'r paratoadau ar gyfer pontio i'r Pumed Cynulliad, a heriau newydd sy'n gysylltiedig â hynny.

**Tabl 1: Crynodeb - Blynyddoedd Ariannol 2011-16 yn ôl Nod Strategol**

| Nod Strategol | 2011-12 **£m** | 2012-13 **£m** | 2013-14 **£m** | 2014-15 **£m** | 2015-16 **£m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf (£M)** | 9.0 | 9.1 | 9.6 | 10.4 | 10.6 |
| **Gwasanaethau TGCh yn y Dyfodol (£M)** | 4.0 | 4.0 | 4.4 | 4.4 | 4.4 |
| **Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru (£M)** | 12.1 | 12.5 | 12.5 | 12.5 | 12.8 |
| **Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth (£M)** | 2.8 | 2.8 | 3.0 | 3.1 | 3.2 |
| **Taliadau dibrisiant (£M)** | 3.2 | 3.8 | 4.0 | 4.4 | 4.7 |
| **Buddsoddiad (£M)** | 0.6 | 1.2 | 2.3 | 1.7 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **31.7** | **33.4** | **35.8** | **36.5** | **36.4** |

## 02. Cyllideb 2015-16

**Cyfanswm y gyllideb weithredol ar gyfer 2015-16 yw £50.9 miliwn, sy'n golygu toriad mewn termau real o 1.0%.**

Ar gyfer 2015-16 bydd Comisiwn y Cynulliad yn parhau i weithredu yn unol â'r hyn a nodir yn y cyllidebau ar gyfer y tair blynedd flaenorol. Cyfanswm y gyllideb weithredol ar gyfer 2015-16 yw £50.9 miliwn, sy'n sicrhau gostyngiad mewn termau real o 1.0%. Er bod hyn ychydig yn uwch na'r toriad o 0.8% mewn termau real i floc Cymru, rydym yn hyderus o hyd bod y lefel ariannu hon yn ddigon i gyflawni cynlluniau'r Comisiwn.

O fewn y cyfanswm hwn rydym yn wynebu costau ychwanegol, a bennir gan Swyddfa'r Cabinet, sy'n ymwneud â chyfraniadau uwch gan gyflogwyr i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) y rhagwelir y byddant yn cynyddu costau blynyddol y Comisiwn tua £0.3 miliwn. Byddwn yn gallu ymdopi â'r gost ychwanegol hon heb gael effaith andwyol o bosibl ar strategaeth a gwasanaethau'r Comisiwn gan gynnwys y buddsoddiad a wnaed hyd yma yn ystod y Cynulliad hwn. Adlewyrchir y gost ychwanegol hon yng nghostau staff y Comisiwn o £16.9 miliwn ar gyfer 2015-16.

Mae costau untro cylchol yn gysylltiedig ag etholiad, sy'n codi cyn ac ar ôl yr etholiad. Ar gyfer etholiadau'r Pedwerydd Cynulliad, aeth y Comisiwn ati i glustnodi'r rhain fel costau untro, eithriadol a cheisio cael cyllideb ddigonol. Sicrhaodd hyn fod gweithrediadau arferol y Comisiwn yn cael eu diogelu rhag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag etholiad ac yn rhoi eglurder a thryloywder ynghylch costau'r etholiad drwy ddychwelyd unrhyw arian etholiad nas defnyddiwyd.

Rydym yn parhau â'r dull gweithredu hwn ar gyfer etholiad 2016 ac yn cynnig £0.5m amcangyfrifedig yn 2015-16 ar gyfer costau cynllunio a pharatoi yr eir iddynt yn ystod y flwyddyn.

Fel cost eithriadol, untro, caiff yr agwedd hon ar y gyllideb ei heithrio o ymrwymiad y Comisiwn i weithio yn unol â newidiadau i Floc Cymru. At hynny, ni fyddai'r swm hwn ar gael at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag etholiad a byddai'n cael ei ddychwelyd i Floc Cymru pe na châi ei ddefnyddio.


Ym mis Gorffennaf 2014 dechreuwyd darparu gwasanaethau TGCh yn fewnol a fydd yn arwain at arbedion gweithredol sylweddol ac yn sicrhau bod arian ar gael ar gyfer datblygu gwasanaethau TGCh ymhellach i Aelodau a Phwyllgorau yn unol â strategaeth TGCh y Comisiwn.

Bydd y penderfyniad hwn gan y Comisiwn yn arwain at arbedion termau real blynyddol o dros 2% y flwyddyn tan 2018, cyfanswm arbediad mewn termau real yn ystod y cyfnod o tua £1.0 miliwn.

Dengys Siart 2 y newidiadau rhwng costau staff, costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff a'r gronfa ddatblygu yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2017 gyda chyfanswm gwariant yn parhau'n gyson ar £4.4 miliwn

Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn ymwneud ag addasiadau cyfrifyddu nad yw'n arian parod o ran Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynyddir y lefel ddarpariaeth i £1.2 miliwn er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r ffigur a gymeradwywyd yng Nghyllideb Atodol y Comisiwn yn 2013-14. Gellir ond defnyddio'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol at y diben y'i bwriadwyd.

## Siart 2: Costau TGCh 2013-2017




Dengys Tabl 3 y newidiadau rhwng y gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd yng nghyllideb Comisiwn y Cynulliad 2014-15 a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015-16.

## Tabl 3: Cyllideb Arfaethedig y Comisiwn

| | Cyllideb 2014-15 £m | Amcangyfrifedig 2015-16 £m | Newidiadau TGCh £m | Newidiadau Eraill £m | Cyllideb Gymaradwy 2015-16 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Staff y Comisiwn** | 15.8 | 16.0 | 0.9 | | 16.9 |
| **Costau sefydlog** | 10.5 | 11.1 | (0.6) | (0.2) | 10.3 |
| **Costau amrywiol** | 4.1 | 3.7 | 0.4 | | 4.1 |
| **Costau TGCh** | 4.4 | 4.4 | (0.8) | | 3.6 |
| **Gronfa Ddatblygu TGCh** | | | 0.8 | | 0.8 |
| **Rhaglen Fuddsoddi** | 1.7 | 1.2 | (0.5) | | 0.7 |
| **Cyllideb y Comisiwn** | 36.5 | 36.4 | 0.2 | (0.2) | 36.4 |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad** | 14.1 | 14.5 | - | - | 14.5 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Weithredol** | 50.6 | 50.9 | 0.2 | (0.2) | 50.9 |
| **Costau sy'n Gysylltiedig â'r Etholiad** | - | - | - | 0.5 | 0.5 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | 0.8 | 0.8 | | 0.4 | 1.2 |

Effaith ariannol gyffredinol cyflwyno'n fewnol wasanaethau TGCh a arferai gael eu rhoi ar gontract allanol oedd rhyddhau £0.8 miliwn o'r gost TGCh flynyddol o £4.4 miliwn, tua 18% o'r gyllideb, er mwyn ei fuddsoddi mewn gwelliannau ac ychwanegiadau i'r gwasanaeth TGCh a ddarperir. Dangosir hyn yn Nhabl 3 fel y Gronfa Ddatblygu TGCh.

**Mae dod â gwasanaethau TGCh yn fewnol wedi;**

- **Rhyddhau £0.8 miliwn ar gyfer gwelliannau pellach ym maes TGCh**
- **Creu arbedion mewn termau real o 2% y flwyddyn tan 2018**
- **Wedi rhoi costau o fewn ein rheolaeth**

Hefyd, mae Costau Staff wedi cynyddu £0.9 miliwn sy'n cynnwys cyfraniadau cyflogwr PCSPS o £0.3 miliwn; ac mae cyflogau cytundebol wedi cynyddu £0.3 miliwn. Mae effaith barhaus yr ad-daliad ardrethi wedi lleihau ein Costau Sefydlog £0.2 miliwn a cheir gostyngiad pellach o £0.6 miliwn mewn costau sefydlog o ganlyniad i derfynu cymorth ar gontract allanol yn y Senedd, a ddarperir bellach yn fewnol.

Nid oes unrhyw gynnydd cyffredinol mewn Costau Amrywiadwy o'r amcangyfrif a geir yn nogfen cyllideb 2014 ond mae'r cyllid ar gyfer y Rhaglen Fuddsoddi wedi cael ei leihau i gynnal y gyllideb gyffredinol yn unol â'r gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015-16.

Bydd penderfyniad y Comisiwn i ddileu aneffeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian hefyd yn talu ar ei ganfed yn 2015-16. Bydd yn galluogi arloesed, creadigrwydd ac ymrwymiad o hyd i'r gwasanaethau o safon a ddisgwylir gan yr Aelodau a'r cyhoedd a hynny'n briodol, tra'n cyflawni ein hymrwymiad i weithio o fewn cyfyngiadau ariannu'r sector cyhoeddus.

Bydd cwblhau'r rhaglen fuddsoddi y mae'r Comisiwn wedi bod yn ei datblygu yn galw am tua £1.6 miliwn yn 2015-16. Caiff y Gronfa Fuddsoddi ei gosod ar lefel sy'n gyson â'r arian sydd ar gael. Bydd yn rhaid i ran o'r arian hwn ddod o raglen Gwerth am Arian y Comisiwn.

Bydd y rhaglen fuddsoddi ar gyfer 2015-16 yn cynnwys:

- Diweddaru'r seilwaith TGCh, yn enwedig wrth i ni fwrw ati i gyfuno'r gwasanaeth TGCh yn fewnol yn ogystal ag adnewyddu'r Siambr;
- Helpu i wireddu uchelgais y Comisiwn i ddod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog;
- Gwaith cynaliadwyedd i leihau ein heffaith amgylcheddol;
- Ymgysylltu yn allanol, gan gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc, a dyfodol bws y Cynulliad;
- Gwella systemau rheoli gwybodaeth y Comisiwn; a
- Parhau â'n buddsoddiad yn ystad y Cynulliad.

INVESTORS IN PEOPLE | Gold

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE
YN GADARN O BLAID · POBL ANABL

yn cefnogi
AGE POSITIVE

Top Employers
for Working Families

LOUDER THAN WORDS

THE TIMES
TOP 50
EMPLOYERS FOR
WOMEN
2014
in partnership with
opportunitynow
men | women | workplace

Stonewall
STAR PERFORMER
NETWORK GROUP
2014
PERFFORMIWR ARBENNIG
GRŴP RHWYDWAITH

Stonewall
TOP 100
EMPLOYERS
2014
100 CYFLOGWR
GORAU

# 03. Y pum maes â blaenoriaeth wedi'u diweddaru

**Cyfarfu'r Comisiwn ym mis Ebrill 2014 i adolygu cynnydd yn erbyn ein nodau strategol a blaenoriaethau ar gyfer newid, arloesedd a buddsoddiad.**

Rydym yn falch o'n cyflawniadau a'r cynnydd a wnaethom yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cynulliad hwn a byddwn yn adeiladu arnynt dros y ddwy flynedd nesaf. Cyfarfu'r Comisiynwyr ym mis Ebrill 2014 i adolygu cynnydd yn erbyn ein nodau strategol a'n blaenoriaethau ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ers 2011.

Ers 2012 rydym wedi cynnal arolwg blynyddol, gan roi cyfle i'r Aelodau a'u staff roi adborth i ni ar y gwasanaethau sy'n ategu eu gwaith. Mae'r arolwg yn ein helpu i fesur ein perfformiad ac mae'n fodd i'r Aelodau ac eraill graffu arnom a'n dwyn i gyfrif. Drwy gydol y broses hon rydym yn parhau i werthuso ein gwasanaethau a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr. Mae'r adborth yn ein helpu i ddarparu'r cymorth priodol fel y gall Aelodau gyfranogi ym musnes ffurfiol y Cynulliad a nodi newidiadau y dylid eu gwneud i'r amgylchedd i'r rheini sy'n gweithio ar ystad y Cynulliad neu sy'n ymweld â hi.

Nodwyd beth yn rhagor sydd angen ei wneud cyn etholiadau 2016 er mwyn sicrhau, fel Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, ein bod yn parhau i roi'r cymorth a'r gwasanaethau i'r Aelodau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau, a gadael gwaddol cadarn a chlir.

O ganlyniad, er mwyn cefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae gennym bum maes â blaenoriaeth wedi'u diweddaru ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ar gyfer y Cynulliad hwn. Maent fel a ganlyn:

- Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r cymorth a ddarparwn, gan gynnwys drwy effaith camau nesaf ein Strategaeth TGCh;
- Gwasanaethau dwyieithog gwell;
- Ymgysylltu'n well â phobl yng Nghymru;
- Gwneud y gorau o'n Hystad; a
- Cwblhau'r paratoadau ar gyfer newid i'r Pumed Cynulliad, a heriau newydd sy'n gysylltiedig â hynny

## 03.1. Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r cymorth a ddarparwn

Mae gan y Comisiwn y ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau bod y Cynulliad yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol at ddibenion y Cynulliad.

Mae cynnydd y Cynulliad fel senedd wedi bod yn sylweddol ers 1999 ac yn enwedig yn ystod tymor y Pedwerydd Cynulliad. Mae hyder yng ngwaith y Cynulliad wedi cynyddu ac, mewn sawl maes, rydym yn esiampl i gyrff seneddol eraill ei dilyn. Fodd bynnag, gyda heriau mawr i ni ddarparu cymorth sy'n gyson gryf i ddiwallu anghenion Aelodau unigol y Cynulliad a'r Pwyllgorau yn llawn, mae gennym lawer mwy i'w wneud er mwyn helpu ACau a Phwyllgorau i ddarparu senedd ragorol i Gymru.

# Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Pwyllgorau'r Cynulliad:

- Byddant yn cytuno ar gynllun clir, strategol ar gyfer eu gwaith, sy'n blaenoriaethu eu gweithgareddau ac yn ystyried eu defnydd o amser ac adnoddau;
- Byddant yn brif flaenoriaeth i'r Aelodau sy'n gwasanaethu arnynt;
- Byddant yn cael eu harwain gan gadeiryddion sy'n cyflawni pob un o'r disgwyliadau a osodir ar eu cyfer gan y Cynulliad;
- Byddant yn cael eu parchu gan Lywodraeth Cymru, gydag ansawdd eu hymchwiliadau a'u gwaith craffu, manyldeb eu gwaith holi, dyfnder eu dadansoddiad a gwerth eu gwelliant deddfwriaethol yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando arnynt. Bydd y Llywodraeth yn ymwybodol o ymateb y pwyllgorau wrth iddi ffurfio ei chynlluniau polisi, gwario a deddfwriaethol;
- Byddant yn craffu ar bolisi, gwariant a deddfwriaeth o fewn eu portffolio yn gyffredinol, nid fel agweddau unigol ar eu cyfrifoldebau;
- Byddant yn cynnig ac yn disgwyl ymgysylltiad adeiladol â Llywodraeth Cymru, ond yn cadw hyd braich a'u gallu i gynnig beirniadaeth wrthrychol;
- Ni chânt eu cyfyngu gan rwystrau o ran mynediad at Weinidogion, gwybodaeth neu dystion a byddant yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth arbenigol sydd eu hangen arnynt;
- Byddant yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl, yn cael eu hystyried gan grwpiau o randdeiliaid fel chwaraewyr pwysig, dylanwadol ac fel y lle naturiol i gyflwyno pryderon a syniadau, ac ymgymryd â gwaith sy'n gwella enw da cyhoeddus y Cynulliad. Bydd eu gwaith yn hygyrch i gynulleidfa mor eang ag y bo modd;
- Byddant yn sicrhau bod y rhai sy'n cyfrannu at eu gwaith yn gweld gwerth eu cyfranogiad; a
- Byddant yn gofyn am ddadansoddiad a gwerthusiad beirniadol er mwyn gwella eu perfformiad

### Pwyllgorau seneddol o'r radd flaenaf

**Un ffordd o godi proffil pwyllgorau yw drwy ffrydiau trydar dwyieithog prysur iawn.**

Yn 2013, cychwynnodd y Comisiwn ar adolygiad o'r cymorth i Bwyllgorau ac mae'r adroddiad a ddeilliodd o'r adolygiad yn datgan yr uchelgais i Bwyllgorau'r Cynulliad fod o'r radd flaenaf. Dyhead y Comisiwn yw y dylai Pwyllgorau'r Cynulliad wella ansawdd canlyniadau polisi, deddfwriaeth a gwasanaethau cyhoeddus i gymdeithas yn gyffredinol yng Nghymru mewn ffordd eglur. Er mwyn cyflawni statws o'r radd flaenaf bydd y Comisiwn yn canolbwyntio ar feysydd y mae angen talu sylw iddynt er mwyn darparu'r adnoddau a'r gwasanaethau i gyflawni ein dyhead.

Mae staff o bob rhan o'r Comisiwn yn helpu pwyllgorau o ran clercio, ymchwil, y cyfryngau a chymorth cyfreithiol; gwasanaethau diogelwch ac ymwelwyr; cyfieithu ar y pryd a chyfieithu; TG a darlledu. Ar gyfer sefydliad bach mae pwyllgorau yn cael eu cefnogi'n dda gyda digon o adnoddau ar gael iddynt ac mae'n briodol bod y Comisiwn yn adolygu'r cymorth hwnnw er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn cael yr effaith fwyaf a'u bod o'r ansawdd uchaf posibl.

Dim ond rhan o'r stori yw'r adnoddau y mae'r Comisiwn yn eu neilltuo i'r pwyllgorau. Gallem ddarparu'r gwasanaethau cymorth seneddol gorau yn y byd ond ni fyddai hynny o reidrwydd yn gwarantu perfformiad pwyllgorau o'r radd flaenaf gan fod llawer o'r ysgogiadau pwysig y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Comisiwn. Mae camau gweithredu pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad, y llywodraeth, cymdeithas ddinesig a chadeiryddion pwyllgorau ac Aelodau yn hollbwysig. Mae'r Comisiwn yn gobeithio y caiff y weledigaeth a nodwyd ganddo ei derbyn a'i rhannu gan bob un o'r grwpiau hyn ac rydym yn ymrwymedig i weithio er mwyn sicrhau bod pwyllgorau'r Cynulliad mor effeithiol â phosibl.

Ni fydd rhywfaint o'r gwaith angenrheidiol i greu pwyllgorau seneddol o'r radd flaenaf yn dwyn ffrwyth tan ar ôl yr etholiad nesaf ond mae'r ffocws a bennwyd gan y Comisiwn eisoes yn arwain at ganlyniadau gwell. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar godi proffil pwyllgorau yn y cyfryngau. Rydym wedi cynyddu ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol ac mae gan bob pwyllgor bellach ffrydiau Twitter dwyieithog, gweithredol iawn. Mae 'cyrhaeddiad' y ffrydiau hyn yn cynyddu ac yn cwmpasu holl weithgarwch pwyllgorau, ac nid cyfarfodydd yn unig.

Mae defnydd gwell o dimau integredig gyda staff o wasanaethau clercio, ymchwil, cyfathrebu a gwasanaethau cyfreithiol wedi arwain at fwy o ffocws ar gynllunio strategol, tymor hwy. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol i lywio gwaith Aelodau mewn pwyllgorau gan gynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, gwe-sgyrsiau a digwyddiadau rhanddeiliaid. Rydym yn cynyddu'r defnydd o ddigwyddiadau i gyrraedd a chefnogi rhanddeiliaid na fyddent fel arfer yn ymgysylltu â ni mewn sefyllfa bwyllgora ffurfiol ac mae ein gwaith Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn ategu ein gwaith â grwpiau eraill. Mae gwaith cynllunio gwell wedi ein galluogi i wella'r cymorth a ddarparwn i Aelodau i weithio yn eu dewis iaith.

## Arbenigedd cyfreithiol

**Atgyfnerthu arbenigedd cyfreithiol drwy wella galluoedd mewnol**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu gwasanaethau cyfreithiol dwyieithog i'r Llywydd, y Comisiwn, Pwyllgorau a phob Aelod, fel rhan o dîm hollol integredig o arbenigwyr ymchwil, gweithdrefnol ac arbenigwyr eraill. Bwriedir atgyfnerthu dwy agwedd ar y gwasanaethau cyfreithiol hyn: darparu drafftiau deddfwriaethol o Filiau Aelodau; a'r gallu i ymgymryd â mwy o waith cyfreithiol masnachol. Gwneir hyn drwy'r canlynol:

- rhoi'r gwaith o ddrafftio Biliau anllywodraethol ar gontract allanol i ddrafftiwr allanol arbenigol yn y byrdymor, ynghyd â hyfforddiant i'r cyfreithwyr mewnol drwy'r drafftiwr allanol hwnnw;
- cyflwyno rhaglen barhaus o ddatblygiad proffesiynol i gyfreithwyr mewnol; a
- ymchwilio i'r galw am wasanaethau cyfreithiol masnachol ac unrhyw alw heb ei ateb am wasanaethau cyfreithiol yn y Cynulliad.

Mae'r dull o roi gwaith ar gontract allanol yn gweithio'n dda ac yn nhreigl amser bydd yn gwella'r gallu i ddrafftio Biliau anllywodraethol yn fewnol ac, ynghyd â'r rhaglen datblygu proffesiynol, bydd yn golygu y bydd Gwasanaethau Cyfreithiol yn gallu ymateb i unrhyw newidiadau sylweddol sy'n effeithio ar y Cynulliad, megis pwerau ariannol newydd, a'u cefnogi.

## Gwasanaethau TGCh

Mae'r Comisiwn bob amser wedi defnyddio technoleg i ategu gwaith yr aelodau a'r pwyllgorau ac mae'r rhaglen fuddsoddi dros y tair blynedd ddiwethaf wedi ymwneud cryn dipyn â TGCh. Mae manylion am ein cynlluniau, a gafodd eu cynnwys mewn dogfennau cyllideb blaenorol, wedi arwain at nifer o gyflawniadau pwysig.

Yn 2014, symudodd y Comisiwn yn llwyddiannus o gontract allanol i wasanaeth a ddarperir bron yn gyfan gwbl yn fewnol gyda chymorth allanol arbenigol lle bo angen. Cyflawnwyd y prosiect ar amser ac o fewn y gyllideb ac mae eisoes wedi sicrhau arbedion a gaiff eu hailfuddsoddi yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau TGCh gwell i Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a staff y Comisiwn.

Yn 2014-15 rhagwelir y bydd gwasanaeth TGCh y Comisiwn yn costio £3.9 miliwn sef lleihad o fwy na 10% o gymharu â'r gost flynyddol o £4.4 miliwn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae strwythur y gwasanaeth wedi newid er mwyn adlewyrchu'r ddarpariaeth newydd ac mae nifer y staff ym maes TGCh wedi cynyddu i tua 41, a fydd yn costio tua £1.7 miliwn, gyda chostau gweithredu yn gostwng i £2.3 miliwn. Caiff y balans o £0.4 miliwn ei ddefnyddio i wella gwasanaethau TGCh ymhellach.

Y Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer boddhad aelodau â TGCh o fewn ystad y Cynulliad oedd 6.6 yn arolwg Gorffennaf 2013. Mae'r arolwg diweddaraf newydd gael ei gwblhau ac mae'r sgôr hon bellach yn 7.5 sy'n adlewyrchu llwyddiant pellach o ran newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau TGCh i'r aelodau.

Gan mai dim ond y tri mis cyntaf y mae'r arolwg yn eu cwmpasu ers i'r gwasanaeth a ddarperir gael ei newid, rhagwelwn y bydd arolwg 2015, a fydd yn cwmpasu cyfnod o ychydig dros flwyddyn, yn rhoi darlun gwell o'r mesurau anariannol a ddefnyddiwn yn ein gwaith.

Yn y bôn, mae'r gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu am gost is ond mewn ffordd fwy hyblyg ac addasadwy a fydd yn galluogi Comisiwn y Cynulliad i ddefnyddio'r arian datblygu a ryddhawyd i gyflwyno datrysiadau technolegol i gefnogi gwaith Aelodau'r Cynulliad a'r Pwyllgorau.

## Strategaeth TGCh y Comisiwn

Nod y Strategaeth TGCh yw cyflawni'r canlynol:

– datrysiadau arloesol, ymatebol, dibynadwy, hyblyg sy'n rhoi gwerth am arian;

– mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau TGCh sydd eu hangen ar ddefnyddwyr, waeth beth fo'r lleoliad;

– amrywiaeth o ddyfeisiau i ddefnyddwyr;

– cymorth effeithiol;

– gwasanaethau TGCh sy'n cefnogi gwaith a rhannu cydweithredol, mewn ffordd ddiogel;

– asedau gwybodaeth a gaiff eu rheoli'n effeithiol; a

– gwybodaeth sydd wedi'i strwythuro ac sy'n cefnogi'r gwasanaethau busnes y mae ei hangen ar eu cyfer, sy'n gwella effeithlonrwydd ac yn sicrhau gwerth.

### Gwasanaethau TGCh

– **Cyflawnwyd y gwaith o ddod â'r gwasanaeth yn fewnol ar amser ac o dan y gyllideb**

– **Mae wedi rhyddhau arian ar gyfer buddsoddiad pellach**

– **Mae wedi arwain at sgôr gwell o 7.5, o gymharu â 6.6, yn yr arolwg Aelodau diweddaraf**

## TGCh yn y Siambr

Un enghraifft o gyflawni'r Strategaeth TGCh yw'r adolygiad o'r TGCh a ddarperir yn y Siambr lle mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu cyfleusterau TGCh penodedig i Aelodau'r Cynulliad. Er i'r galedwedd gael ei hadnewyddu, ni fu unrhyw newidiadau i'r dull bwrdd gwaith sefydlog ers i'r Senedd gael ei hadeiladu. Yn dilyn cyfnod ymgynghori ac adolygiad technegol trylwyr, bydd y Comisiwn yn cyflwyno'r newidiadau arfaethedig yn ystod toriad yr haf yn 2015. Bydd yr union gostau'n dibynnu ar y llwybr a gymerir o'r opsiynau sydd ar gael ond mae amcangyfrif cychwynnol yn awgrymu tua £0.75 miliwn. Bydd yr arbedion a sicrheir wrth gyflwyno gwasanaethau TGCh yn fewnol yn ariannu'r gwaith hwn yn rhannol. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd yn ystyried disodli system feddalwedd y Siambr, gan ddefnyddio arbenigedd y tîm rheoli cymwysiadau newydd a gwella'r swyddogaethau pleidleisio.

## Teleffoni

Daw'r contract teleffoni cyfredol i ben ym mis Mehefin 2015 ac mae'r ddarpariaeth o ran teleffoni yn y dyfodol eisoes yn cael ei hystyried. Yn yr amgylchedd hwn sy'n newid yn gyflym caiff pob opsiwn ei ystyried ond bydd gwerth am arian yn flaenoriaeth uchel. Mae'r dangosyddion cyfredol yn awgrymu y gallwn ddarparu'r lefel ofynnol o berfformiad am gost flynyddol lai o gymharu â'n trefniadau cyfredol.

Caiff y system deleffoni newydd ei chaffael a'i gweithredu a bydd yn barod i fynd yn fyw ar ddechrau blwyddyn ariannol 2015-16.

## Atebion newydd i gefnogi gwasanaethau busnes

Etifeddwyd llawer o gymwysiadau gennym pan drowyd y gwasanaeth TGCh yn un mewnol a bellach mae gennym dîm penodedig yn y gwasanaeth ar gyfer rheoli cymwysiadau. Un maes sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yw datblygu cymwysiadau presennol i wneud defnydd gwell o'r wybodaeth a ddelir gennym i'w chyhoeddi'n fewnol, a lle y bo'n briodol, yn allanol. O dan y trefniant presennol lle roedd gwaith yn cael ei roi ar gontract allanol roedd y costau ar gyfer y math hwn o ddatblygiad

### Datblygiadau TGCh

– **Newidiadau a gynlluniwyd i TGCh yn y Siambr i'w gwneud yn ystod toriad yr haf 2015**

– **Byddwn yn caffael system teleffoni newydd, a fydd yn cael ei gweithredu ar ddechrau 2015-16**

– **Lansiwyd prosiect adnewyddu'r wefan – Medi 2014**

– **Diweddaru Senedd TV – Medi 2014**

yn gostus, yn anhyblyg ac yn aml yn cynyddu'n gyflym. Gyda staff bellach ar waith sydd â'r sgiliau angenrheidiol, gellir rheoli'r gwaith datblygu hwn yn llawer mwy effeithiol o ran amser a chost.

Mae mentrau eraill, a fydd yn esgor ar fuddiannau dros y ddwy flynedd nesaf ac yn gwella'r ffordd y gall y cyhoedd ymgysylltu â gwaith yr Aelodau, yn cynnwys:

– lansio prosiect adnewyddu'r wefan i wella defnyddioldeb ac effeithiolrwydd gwefannau'r Cynulliad a'r ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth am waith y Cynulliad.

– uwchraddio Senedd TV fel y gellir gweld darllediadau byw o'r Senedd ar unrhyw ddyfais a galluogi defnyddwyr i oedi, ailddirwyn a chwarae'r darllediad yn ôl. Mae nodweddion eraill yn cynnwys capsiynau byw, dolenni i eitemau ar yr Agenda a'r gallu i chwilio'r Cofnod ysgrifenedig a chwarae'r fideo cysylltiedig; a

– system cymorth y Cyfarfod Llawn a'r ffordd rydym yn llunio ac yn cyflwyno ein hadroddiadau ar drafodion (ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau) er mwyn manteisio ar lwyfannau TGCh newydd i weithio mewn ffordd fwy deallus a gwneud y wybodaeth yn fwy hygyrch.

## 03.2. Gwasanaethau dwyieithog gwell

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhydd yn y naill iaith neu'r llall mewn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn uchelgais pwysig. Nod y Comisiwn yn y pen draw yw sicrhau y gall pobl ddewis p'un a ydynt am ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg ym mhob elfen o'u gwaith. Rydym ar y trywydd cywir yn hyn o beth ac mae cynnydd wedi cael ei wneud, gyda gwelliannau o ran darparu cymorth arloesol a chymorth wedi'i deilwra i Aelodau'r Cynulliad gan eu galluogi i weithio'n effeithiol yn un o'n hieithoedd swyddogol neu yn y ddwy. Nodwyd y cynnydd hwn yn ein hadroddiad cydymffurfio blynyddol cyntaf i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2014.

**http://www.assemblywales.org/laid%20documents/gen-ld9836%20-%20national%20assembly%20for%20wales%20official%20languages%20scheme%20-%20annual%20compliance%20report/gen-ld9836-w.pdf**

Un mesur mewnol o welliant yw'r arolwg blynyddol o'r Aelodau. Ym mis Gorffennaf 2013 y sgôr ar gyfer gweithio yn eich dewis iaith oedd 6.2 ac yn arolwg mis Gorffennaf 2014 roedd hyn wedi gwella'n sylweddol i 8.9 sy'n adlewyrchu'r gwelliannau y mae dull gweithredu'r Comisiwn eisoes wedi'u gwneud.

Mae ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn technoleg i drawsnewid y gwasanaeth dwyieithog a ddarperir yn golygu bod y Cynulliad wedi cael ei gydnabod yn fyd-eang drwy ein partneriaeth â Microsoft i lansio Cyfleuster Cyfieithu Microsoft Cymru. Mae'r adnodd ar gael i bob Aelod, i'r staff ac yn gyffredinol drwy Microsoft Office a chynhyrchion eraill. Mae cyfieithiadau peiriant yn caniatáu i bobl ledled y byd drosi testun o'r Saesneg i'r Gymraeg ac i'r gwrthwyneb, drwy glicio ar 'cyfieithu'. Yn y Cynulliad, bydd y system yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i ddwyieithrwydd ac yn helpu staff i gyfathrebu yn eu dewis iaith, yn ogystal â rhyddhau staff sy'n ymwneud â chyfieithu i ddarparu gwasanaethau gwerth ychwanegol eraill.

Er mwyn bodloni disgwyliadau Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd, mae angen cyflawni mwy cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r Cynllun wedi ein galluogi i feddwl yn wahanol am y ffordd rydym yn gwneud pethau, a bod yn ymatebol i anghenion gwlad ddwyieithog. Cydnabyddwn fod wireddu ein huchelgais i gael ein

**Gwasanaethau dwyieithog gwell**

- **Lansio Cyfieithu Peirianyddol yn llwyddiannus**
- **Adroddiad cydymffurfio blynyddol cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014**
- **Gwellodd bodlonrwydd Aelodau i 8.9 o 6.2 yn yr arolwg diweddaraf**

cydnabod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn golygu mwy na chyfieithu geiriau. Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio ein hadnoddau yn ddoeth er mwyn darparu'r gwasanaethau dwyieithog gorau ym mhob un o feysydd gwaith y Cynulliad er mwyn sicrhau bod pawb sy'n ymgysylltu â ni yn gallu gwneud hynny yn un o'r ddwy iaith swyddogol. Mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o'r holl wasanaethau. Ni ddyrennir llinell gyllideb benodol mwyach ar gyfer gwasanaethau dwyieithog a ddarperir, ond caiff hyn ei brif ffrydio ym mhob cyllideb a'i adlewyrchu mewn newid ymarferol ym mhob rhan o'r sefydliad, er enghraifft yn adolygiad y Comisiwn o gymorth i bwyllgorau.

Bwriadwn adeiladu ar y gwaith da a wnaed hyd yma, ac ymdrechu i gyflawni ein huchelgais o fod yn sefydliad dwyieithog rhagorol.

**Cynyddu ymgysylltiad mewn byd digidol**

- **Cafwyd arloesedd sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf**
- **Mae dilynwyr Twitter wedi cynyddu 54%**
- **Defnyddiwyd fideos Facebook i hyrwyddo Cynllun Prentisiaeth y Cynulliad gan arwain at gynnydd o 70% yn y ceisiadau**
- **Cafwyd twf sylweddol yn nifer y bobl sydd wedi gwylio fideos ar sianel YouTube y Cynulliad**

## 03.3. Ymgysylltu'n well â phobl yng Nghymru

Un o'n huchelgeisiau yw creu amgylchedd sy'n ennyn diddordeb pobl yng ngwaith y Cynulliad ac sy'n hwyluso gwaith ymgysylltu. Rydym am ehangu'r broses o ymgysylltu â phobl Cymru drwy roi mwy o gyfleoedd iddynt ryngweithio â gwaith y sefydliad hwn a'ch gwaith chi fel Aelodau. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi gweld cryn arloesi yn y maes hwn. Rydym wedi rhoi pwyslais newydd ar gyfryngau cymdeithasol fel y gallwn ymgysylltu â chynulleidfaoedd gwahanol mewn fformat y gallant ei ddefnyddio. Rydym hefyd wedi parhau â'n rhaglen o ymweliadau ag ysgolion a chydag ystod eang o sioeau haf ledled Cymru yn hysbysu pobl am sut y mae eu democratiaeth hwy yn gweithio. Mae gwaith arall i ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc, yr ymgyrch merched mewn bywyd cyhoeddus, a chynyddu nifer yr ymwelwyr a nifer y digwyddiadau yn enghreifftiau cadarnhaol eraill.

Mae'r Comisiwn am bwyso'n galed am fwy o ymgysylltu â'r cyhoedd y tu hwnt i grwpiau penodol. Bydd yn ystyried sut i sefydlu'r Cynulliad fel brand clir a gwahanol ym meddyliau pobl Cymru.

# ADDYSG: EBRILL 2013 - MAWRTH 2014

**263**
O YMWELIADAU ADDYSGOL Â CHAERDYDD

**7,302** O FYFYRWYR YN BRESENNOL

**8,669** O FYFYRWYR YN BRESENNOL

**256**
O GYFLWYNIADAU ALLGYMORTH ADDYSG

**519** | CYFANSWM YMWELIADAU Â BAE CAERDYDD AC YMWELIADAU ALLGYMORTH

CYFANSWM YMWELIADAU ADDYSG A DIGWYDDIADAU ADDYSG

**445**
O YSGOLION

**17,424**
O DDISGYBLION

## Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Un o brif ymdrechion y Comisiwn fu ymgysylltu â phobl ifanc ac ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, gofynnodd y Llywydd i staff y Cynulliad gynnal ymgynghoriad i ofyn i bobl ifanc Cymru sut y gallwn eu cynnwys yn well yng ngwaith y Cynulliad yn eu barn hwy. Holodd staff bobl ifanc 11 - 18 oed ledled Cymru i weld beth y gall y Cynulliad ei wneud i alluogi pobl ifanc i ymuno yn y ddadl wleidyddol a lleisio eu barn.

**Ymgysylltu**

- **Ymwelodd 81 o ysgolion newydd yn 2013-14**
- **Cynyddodd nifer yr ymwelwyr â'r Senedd 10%**
- **Cynyddodd teithiau ymwelwyr 31% dros yr un cyfnod**
- **Cynyddodd lefelau bodlonrwydd ymwelwyr i 89%**

Darparodd yr ymgynghoriad wybodaeth newydd am ddealltwriaeth pobl ifanc o'r Cynulliad a'u diddordeb ynddo a rhai syniadau am beth fyddai'r ffordd orau i'r Cynulliad ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffyrdd a oedd yn eu galluogi i gyfrannu at ei waith.

Cwblhaodd bron 3,000 o bobl ifanc holiadur. Y tair prif thema a ddeilliodd o'r dadansoddiad o'r canlyniadau oedd:

- Cyrraedd pobl – mae angen i ni sicrhau y gall pobl ifanc ddysgu am fusnes y Cynulliad a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt hwy;
- Galluogi trafodaeth – mae angen i ni ddarparu ffyrdd amrywiol a hawdd heb unrhyw jargon y gall pobl ifanc eu defnyddio er mwyn cymryd rhan; a
- Adborth – rhaid i ni sicrhau bod pobl ifanc yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl, mor gynnar a rheolaidd â phosibl, am ganlyniadau eu cyfranogiad.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, ystyriwyd yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym a sut y gallem newid y ffordd rydym yn gweithio er mwyn galluogi mwy o bobl ifanc i ymgysylltu â gwaith y Cynulliad. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni nifer o allbynnau, megis:

- Ychwanegu at Wasanaeth Addysg presennol y Cynulliad drwy ychwanegu sgiliau gweithiwr ieuenctid er mwyn gwella'r broses ymgysylltu y tu allan i'r lleoliad ysgol;
- Datblygu'r wefan **www.dygynulliad.org** fel ei bod yn dod yn ganolfan ar-lein i bobl ifanc ymgysylltu â'r Cynulliad; a
- Datblygu a chyhoeddi Siarter Ymgysylltu sy'n nodi'n glir beth y gall pobl ifanc ei ddisgwyl gennym, a beth y gallwn ei ddisgwyl ganddynt hwy.

Cynhaliwyd digwyddiad lansio ym mis Gorffennaf i hyrwyddo ein gwaith presennol gyda phobl ifanc ac egluro sut ydym yn datblygu drwy'r gwasanaethau gwell hyn i gynnig cyfleoedd newydd i bobl ifanc gymryd rhan.

### Adolygu Cofnod y Trafodion

**Mae ystâd y Cynulliad yn cynnig delwedd broffesiynol llawer gwell yn dilyn buddsoddiad wedi'i dargedu**

Ym mis Mawrth 2014, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i gychwyn adolygiad o'r ffordd yr ydym yn cynnal cofnod o drafodion y Cynulliad. Mae'r Adolygiad yn mynd rhagddo a dylai gyflwyno adroddiad ar argymhellion ar gyfer y dyfodol erbyn gwanwyn 2015. Un elfen bwysig yw ymchwilio i gyfleoedd newydd ar gyfer cynyddu ymgysylltiad a gwneud gweithgareddau'r Cynulliad yn fwy tryloyw, agored a haws i ymgysylltu ag ef mewn byd digidol. Dylai'r argymhellion arwain at adroddiadau ar y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau sy'n diwallu anghenion Aelodau, eich staff a rhanddeiliaid allanol yn well yn ogystal â chynnig ffyrdd mwy effeithlon o weithio.

### Ewrop

Byddwn yn parhau i hyrwyddo Cymru a gwaith y Cynulliad drwy gysylltiadau helaeth yn yr UE ac yn rhyngwladol, gan gynnwys gwaith yn uniongyrchol ym Mrwsel a gwaith cysylltiedig yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Mae hyn yn cynnwys gwaith cynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, ASEau, Sefydliadau'r UE (gan gynnwys cydberthnasau agos â Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, a chynrychiolaeth y DU yn Senedd Ewrop), cyfranogiad yn CALRE, Fforwm EC-UK, Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig a Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad; drwy gysylltiadau dwyochrog eraill â seneddau, cynulliadau deddfwriaethol, a rhwydweithiau a chynrychioliadau'r UE.

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith hwn, gan gynnwys cymryd rhan yng nghynadleddau'r UE a rhai rhyngwladol a fforymau eraill. Byddwn yn ystyried defnyddio ein cysylltiadau yn y DU, yr UE ac yn rhyngwladol i feincnodi gwaith y Cynulliad, fel y gallwn gyflawni'r nod o sefydlu pwyllgorau o'r radd flaenaf mewn ffordd ystyrlon.

## 03.4. Gwneud y gorau o'n hystad

Mae gwelliannau ar draws Ystad y Cynulliad, ein hased cyfalaf pwysicaf, yn golygu bod y rhai sy'n ymweld â'r Cynulliad ac yn gweithio ynddo bellach yn profi ystad fwy hygyrch ac ystad sy'n adlewyrchu statws y Cynulliad yn well. Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd i leihau ein hôl troed carbon drwy reoli ein defnydd o ynni.

Fel canolbwynt y broses ddemocrataidd yng Nghymru rydym wedi gwneud nifer o welliannau i'r ystad dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er mai cymharol fach fu'r gwaith a wnaed, drwy fuddsoddiad wedi'i dargedu rydym wedi llwyddo i wella'r cyfleusterau a'r amgylchedd i'r rhai sy'n ymweld â'r Cynulliad, ac i'r rhai sy'n gweithio yma. Roedd rhywfaint o'r gwaith hwnnw yn cynnwys gwaith adnewyddu hir-ddisgwyliedig, ond roedd rhannau eraill o'r gwaith yn fwy rhagweithiol, a nodwyd llawer o'r gwaith yr oedd angen ei wneud o ganlyniad i adborth gan y rhai a oedd yn ymweld â'r Cynulliad ac yn gweithio ynddo ar y gwelliannau angenrheidiol. Mae swyddfeydd Comisiwn y Cynulliad yn Nhŷ Hywel wedi cael eu hadnewyddu ar sail dreigl er mwyn sicrhau y gellid ymdopi â newidiadau mewn staff o fewn yr ôl troed presennol a ddefnyddir gan staff y Comisiwn. Gwnaed yr holl newidiadau gyda'r bwriad o wella hygyrchedd, profiad yr ymwelydd a threfniadau diogelwch a lleihau effaith y Cynulliad ar yr amgylchedd. O ganlyniad, mae ystad y Cynulliad yn cyflwyno delwedd well a mwy proffesiynol o lawer.

Heriau allweddol yn y dyfodol fydd cyflawni'r agenda cynaliadwyedd a sicrhau bod yr adeiladau'n ymateb i ddiwallu anghenion esblygol Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae cynllun drafft ar gyfer cynnal a chadw ac adnewyddu wedi cael ei ddatblygu gan arbenigwyr sydd wedi adolygu cyflwr ein hadeiladau i gyd a'r cyfarpar a'r offer a osodwyd, ynghyd â rhagolygon ar gyfer oes ac amserlenni ar gyfer diweddaru ac adnewyddu. Bydd hyn yn llywio penderfyniadau buddsoddi ar gyfer yr ystad.

Fel rhan o'n gwaith cynllunio ar gyfer y Pumed Cynulliad, rhagwelir y gwneir buddsoddiad newydd yn swyddfeydd yr Aelodau er mwyn darparu dodrefn mwy modern a hyblyg i wella cyfleusterau ar gyfer Aelodau a'u staff. Rydym yn bwriadu ymgynghori ag Aelodau ynglŷn â hyn yn ystod 2015, gyda'r bwriad o wneud gwaith adnewyddu ar raddfa fawr rhwng y Pedwerydd a'r Pumed Cynulliad. Gwneir hyn er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl a sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gwblhau ar yr un pryd i bob Aelod, gan osgoi'r angen i flaenoriaethu rhai swyddfeydd ar draul eraill.

**Cynnydd Cynaliadwyedd:**

- **34% o ostyngiad mewn allyriadau ynni**
- **9% o ostyngiad mewn defnydd o drydan**
- **62% o ostyngiad mewn gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi**

Gan ddefnyddio'r amserlen sydd ar gael o fewn y cyfnod diddymu cyn y Pumed Cynulliad, cynigir y dylid cyflawni'r gwaith o addurno ac adnewyddu'r Ystafelloedd Cynadledda a'r Ystafelloedd Cyfarfod yn Nhŷ Hywel. Bydd hyn yn darparu cyfleusterau cyfarfod a chynadledda proffesiynol a mwy modern o ansawdd uchel ar gyfer yr ystod eang o gyfarfodydd a gynhelir yn Nhŷ Hywel, i gefnogi gofynion Aelodau a'r rhai sy'n defnyddio ein cyfleusterau.

Ym mis Gorffennaf 2013 cyflawnodd canlyniadau'r Arolwg o'r Aelodau ar gyfer Rheoli Ystadau a Chyfleusterau sgôr gyfartalog o 7.6. (ar raddfa o 1 i 10 lle mae 10 yn cyfateb i ragoriaeth). Roedd nifer o'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud â thymereddau yn y Siambr a'r Ystafelloedd Pwyllgora. Rydym wedi mynd i'r afael â'r rhain drwy welliannau gwresogi'r Senedd a byddwn yn ystyried y posibilrwydd o wneud gwelliannau pellach.

Yn ôl yr arolwg diweddaraf a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2014 mae'r sgôr hon wedi cynyddu i 7.8 sy'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed dros y 12 mis diwethaf.

## Cynaliadwyedd

Mae'r Comisiwn wedi gwneud cynnydd da i leihau ei ôl troed carbon ac wedi gwneud newidiadau gan leihau'r defnydd a'r allbynnau a grybwyllwyd yng nghyllidebau'r blynyddoedd blaenorol.

Mae gostyngiadau cronnol mewn allyriadau ynni yn cyfateb i 34 y cant dros y chwe blynedd ddiwethaf o gymharu â llinell sylfaen y flwyddyn 2008-09 ac mae cynlluniau ar y gweill i'n helpu i gyflawni'r targed o leihau allyriadau 40 y cant.

Er mwyn rhoi hyn mewn cyd-destun ariannol mae ein costau trydan blynyddol ar gyfer tair blynedd gyntaf y 4ydd Cynulliad wedi cynyddu 9% ac mae ein defnydd mewn KwH wedi lleihau i raddau tebyg. Heb y camau a gymerwyd byddai ein costau wedi bod £5,000 yn uwch yn ystod y cyfnod.

Mae camau gweithredu eraill, er nad ydynt wedi arwain at yr un lleihad mewn costau, wedi helpu i leihau ein hôl troed carbon. Mae swm y gwastraff a waredwn yn debyg i'r hyn a waredwyd yn 2012-13; fodd bynnag, bu gostyngiad pellach o 62 y cant yn y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi - sef dim ond 6.5 tunnell o gyfanswm o 120 tunnell o wastraff bellach. Mae hynny'n dod â ni'n agos at ein targed o ddim gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae'r lleihad hwn o ran tirlenwi wedi cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ein hôl troed gwastraff gyda gostyngiad pellach o 57 y cant mewn allyriadau gwastraff o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r Comisiwn bellach wedi cytuno ar Fap Trywydd Lleihau Carbon newydd er mwyn parhau â'n rhaglen lwyddiannus o leihau allyriadau ynni. Mae hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer Strategaeth Rheoli Carbon newydd pan ddaw'r Strategaeth gyfredol i ben yn 2015, a fydd yn cynnwys ystod o dargedau gan gynnwys gwastraff, dŵr a theithio a gaiff eu datblygu dros y flwyddyn i ddod. Datblygwyd y Map

Trywydd Carbon ar sail camau gweithredu ymarferol a chyflawnadwy a weithredwyd yn llwyddiannus mewn sefydliadau eraill i leihau allyriadau ond sicrhau amgylcheddau gwaith cysurus.

Hyd yma, drwy reoli ein defnydd o ynni rydym wedi llwyddo i reoli cyllidebau cyfleustodau yn fwy effeithiol yn erbyn tuedd o gostau cyfleustodau cynyddol bob blwyddyn.

Bydd gweithredu'r Map Trywydd yn cynnig rhywfaint o ddiogelwch i'r Comisiwn rhag codiadau tebygol yn y dyfodol mewn costau cyfleustodau. Caiff y buddsoddiadau a nodwyd yn y Map Trywydd Lleihau Carbon eu hariannu lle y bo'n bosibl o'r gyllideb cynaliadwyedd a phrosiectau presennol ac o arian ychwanegol fel y'i cymeradwyir gan y Bwrdd Buddsoddiadau ac Adnoddau. Mae rhai o'r camau gweithredu a nodwyd yn gysylltiedig â'r gwaith angenrheidiol o osod cyfarpar newydd, sydd ar ddiwedd ei fywyd gweithredol a lle mae cyfleoedd i osod cyfarpar mwy effeithlon a chynaliadwy.

### Gwerth am arian

Mae darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n rhoi gwerth am arian yn flaenoriaeth i ni fel Comisiwn. Rydym wedi datblygu prosesau llywodraethu a rheolaeth ariannol cadarn, a ffyrdd newydd o alluogi'r Aelodau a'r cyhoedd i fonitro ein perfformiad a'n dwyn i gyfrif.

Mae buddsoddi yn ein gwasanaethau yn angenrheidiol er mwyn gwella'r ffordd y cefnogwn yr Aelodau, eich staff a'r cyhoedd; i gynnal a gwella'r ystad a diweddaru ein systemau a thechnoleg yn rheolaidd. Mae ein Bwrdd Buddsoddiadau ac Adnoddau wedi bod ar waith ers 2012 ac yn sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Mae'r Bwrdd yn rheoli ac yn goruchwylio rhaglen fuddsoddi'r Comisiwn ar gyfer y dyfodol, gan gydbwyso'r arian sydd ar gael ac adnoddau staffio ag anghenion ac amseriad prosiectau unigol, eu hamcanion datblygu a pholisi, a chylch cynllunio blynyddol y gyllideb. Mae'n caniatáu i ni gynllunio a chyflawni prosiectau newid mawr a sicrhau y creffir yn briodol ar fuddsoddiad cyfalaf yn y Cynulliad ac y caiff ei flaenoriaethu a'i reoli.

Mae'r Bwrdd Buddsoddiadau yn gysylltiedig â'n gwaith ar Werth am Arian, maes lle mae gennym record dda, sy'n rhagori ar ein targed blynyddol ar gyfer pob un o flynyddoedd y Pedwerydd Cynulliad hyd yma.

| Arbedion a gyflawnwyd | Targed | Cyflawnwyd |
|---|---|---|
| **2011-12** | £0.350 miliwn | £0.530 miliwn |
| **2012-13** | £0.470 miliwn | £0.476 miliwn |
| **2013-14** | £0.500 miliwn | £0.508 miliwn |
| | 22% o arbedion nad ydynt yn gysylltiedig â staff | £0.113 miliwn |
| **2013-14 rates windfall** | | £0.680 miliwn |
| **2014-15** | £0.500 miliwn | Yn unol â'r targed ym mis Awst 2014 |
| **2015-16** | £0.500 miliwn | |

Cyflawnwyd arbedion sylweddol drwy reolaeth gadarn o'r broses gaffael a chontractau. Daethom o hyd i feysydd newydd i wella ein heffeithiolrwydd o ran darparu gwasanaethau a pharhau i wella ein gwybodaeth reoli. Hyd yma, gwnaed y rhan fwyaf o'n harbedion drwy reoli swyddi gwag, er bod canran gynyddol o arbedion nad ydynt yn gysylltiedig â staff. Dros y blynyddoedd i ddod, rydym yn disgwyl i hyn barhau i fod yn her ac mae angen i ni ddatblygu ein gwybodaeth reoli ymhellach er mwyn helpu i ddatblygu hyn.

**Cefnogi arbenigedd yr Aelodau i gryfhau democratiaeth ac atebolrwydd ymhellach**

## 03.5. Y tu hwnt i'r Pedwerydd Cynulliad

Bydd gwaith yn mynd rhagddo o ddifrif yn 2014-15 i baratoi ar gyfer y newid i'r Pumed Cynulliad, fel ein bod yn barod iawn ymlaen llaw ac yn barod i gefnogi Aelodau a staff drwy'r broses hon. Byddwn hefyd yn parhau i gymryd dull rhagweithiol o ymdrin â newidiadau cyfansoddiadol. Y nodwedd amlycaf ar y flwyddyn ddiwethaf fu'r trafodaethau ynghylch setliad cyfansoddiadol Cymru yn y dyfodol. Mae'r pecyn o argymhellion gan y Comisiwn ar Ddatganoli, ac a gyflwynir drwy Fil Cymru, yn darparu sail gadarn ar gyfer datblygu datganoli yng Nghymru. Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y Cynulliad yn y sefyllfa orau bosibl i fod yn barod i arfer y pwerau newydd hyn.

Wrth baratoi ar gyfer y newidiadau hyn, ein blaenoriaeth fydd rhoi trefniadau ar waith a fydd yn sicrhau bod gan Aelodau yn y Pumed Cynulliad yr arbenigedd a'r gallu i ddelio â'r pwerau newydd a'r cyfrifoldebau mwy y byddant yn eu hwynebu a fydd yn atgyfnerthu democratiaeth ac atebolrwydd a'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gwasanaethu pobl Cymru.

Byddwn wedi adolygu'r holl feysydd allweddol fel ein bod yn barod i roi'r cyngor gweithredol a gweithdrefnol i'r Comisiwn a'r Pwyllgor Busnes nesaf, sydd ei angen arnynt er mwyn rhoi'r pwerau ar waith. Enghraifft benodol fyddai'r gwaith y bydd y Pwyllgor Busnes yn ei gyflawni wrth adolygu meysydd penodol o'r weithdrefn a'r Rheolau Sefydlog.

Bydd pecyn penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau o ran taliadau a chymorth ariannol Aelodau yn y Pumed Cynulliad yn hysbys erbyn gwanwyn 2015. Mae'r Comisiwn yn ymgysylltu'n adeiladol â'r Bwrdd Taliadau er mwyn ei hysbysu am flaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer datblygu'r Cynulliad yn strategol, gan adlewyrchu materion sydd o bwys i Aelodau'r Cynulliad, megis cyfathrebu'n lleol â'u hetholwyr.

Lluniodd gwaith y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ddau adroddiad a fydd yn cael effaith ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y newidiadau hyn a ffactorau eraill a fydd yn dylanwadu ar waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol, crëwyd y Gwasanaeth Gweddnewid Strategol yn 2013-14. Yn sgîl hyn penodwyd staff medrus a phrofiadol er mwyn sicrhau y gellir cynllunio ar gyfer effaith ffactorau allanol a mewnol ar gyfeiriad y Cynulliad yn y dyfodol yn effeithiol, a gweithredu'n gyflym ac yn benodol mewn dull trylwyr a phroffesiynol. Bydd buddsoddi yn yr aelodau hyn o staff a fydd yn ymgymryd â rôl hollbwysig i baratoi ar gyfer newidiadau sy'n effeithio ar waith Aelodau'r Cynulliad, Pwyllgorau a staff y Comisiwn, yn sicrhau bod y Comisiwn yn y sefyllfa orau i gyflawni unrhyw ddyletswyddau neu rwymedigaethau newydd.

Byddwn hefyd yn hwyluso cyfnod pontio llyfn i'r Comisiwn nesaf drwy sicrhau bod strategaethau rheoli ariannol ar waith ar gyfer adnoddau yn y Pumed Cynulliad gan gynnwys:

– cynllunio'r gweithlu a meithrin gallu yn ddigon cynnar i sicrhau'r sgiliau cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir ac am y gost leiaf;

– gwella arfarniad opsiynau drwy ddadansoddiad cost o lefelau gwasanaethau a galw;

– pwysleisio gwerth am arian i ddangos sut rydym yn cyflawni mwy gyda llai ac i ddangos sut y caiff y broses o gyflawni buddiannau ei rheoli, ei monitro a'i hadlewyrchu mewn cyllidebau;

– cynnal dull tryloyw a bod yn glir ynghylch ble rydym wedi gwario ein harian yn ystod y Pedwerydd Cynulliad; a

– gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy alldro ariannol, targedau DPA a chynllunio hyblyg.

Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi Adroddiad Etifeddiaeth, gan gynnwys syniadau y gall Comisiwn y Pumed Cynulliad eu hystyried ar gyfer y dyfodol.

## 04. Cyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau annibynnol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

**Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar gyfanswm pecyn taliadau a system cymorth ariannol i Aelodau'r Pumed Cynulliad**

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Bwrdd) yn penderfynu ar gyflogau a chostau eraill Aelodau'r Cynulliad. Cyhoeddir penderfyniadau'r Bwrdd yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau, a chyhoeddwyd y diweddaraf ym mis Gorffennaf 2013.

Mae'r Bwrdd Taliadau o'r cychwyn wedi pennu'r nod - flwyddyn cyn dechrau'r Pumed Cynulliad - o roi strwythur cyflogau, pensiynau a lwfansau ar waith sy'n deg, sy'n glir, sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n addas at y diben.

Cyn i etholiadau nesaf y Cynulliad gael eu cynnal yn 2016, bydd yn pennu cyfanswm y pecyn taliadau a'r system cymorth ariannol sy'n briodol i Aelodau'r Pumed Cynulliad. Mae wedi rhannu ei waith yn bedwar maes:

**i.** Taliadau aelodau - pensiynau

**ii.** Taliadau aelodau - cyflogau: sylfaenol a deiliaid swyddi

**iii.** Cymorth i'r Aelodau, gan gynnwys staffio

**iv.** Lwfansau, gan gynnwys lwfansau preswyl, swyddfeydd a theithio

Nod y Bwrdd yw cynnal ymchwil drylwyr, ymgynghori'n eang a chyhoeddi ei benderfyniadau ym mhob un o'r meysydd hyn erbyn mis Mai 2015.

Rhagwelir y bydd Penderfyniadau ac Adolygiadau pellach yn cael eu gwneud ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol ond nid ydym eto mewn sefyllfa i adlewyrchu'r effaith bosibl y caiff y cyhoeddiadau hyn ar elfen o gyllideb y Comisiwn gydag unrhyw sicrwydd. Fodd bynnag, rydym wedi addasu'r gyllideb i adlewyrchu rhai newidiadau posibl a hefyd wedi cynnwys cronfa wrth gefn o £0.3 miliwn (2%) i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu cyflawni ei gyfrifoldeb statudol i sicrhau arian sy'n codi o benderfyniadau'r Bwrdd yn y dyfodol.

Mae cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2015-16 wedi pennu £14.5 miliwn i ddarparu cyllid ar gyfer cyflogau Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a chostau rhedeg eu swyddfeydd etholaethol ledled Cymru.

Mae Tabl 4 yn dangos y gyllideb i ariannu penderfyniadau'r Bwrdd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

**Tabl 4: Cyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau**

| | 2011-12 £000 | 2012-13 £000 | 2013-14 £000 | 2014-15 £000 | 2015-16 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau'r Cynulliad - Cyflogau a Chostau swyddfeydd** | 6,934 | 6,900 | 6,900 | 6,900 | 7,250 |
| **Staff Cymorth** | 6,100 | 6,600 | 6,800 | 7,200 | 7,250 |
| **Cyfanswm** | **13,034** | **13,500** | **13,700** | **14,100** | **14,500** |

Mae'r Penderfyniad yn sicrhau y gall Aelodau'r Cynulliad hawlio costau swyddfeydd a chostau eraill er mwyn:

– rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;

– talu cyflogau a threuliau teithio eu Staff Cymorth eu hunain;

– talu am lety preswyl yng Nghaerdydd lle bo'i angen i'r rhai sy'n gymwys;

– treuliau teithio yr eir iddynt o reidrwydd wrth gyflawni dyletswyddau; a

– cefnogi'r Grwpiau Plaid ac ymchwil i bolisïau.

Hefyd, mae'r Penderfyniad yn pennu cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad ynghyd â lwfansau deiliaid swyddi. Yn 2011, rhewodd y Bwrdd Taliadau gyflogau Aelodau tan 2015, ar y sail y byddai'n dymor o bedair blynedd.

Cafodd y tymor ei ymestyn wedyn am flwyddyn arall i 2016. Penderfynodd y Bwrdd Taliadau ym mis Mawrth 2014 y dylai Aelodau gael codiad o 1% ar gyfer y flwyddyn olaf 2015-16. Mae adolygiad manwl o gyflogau Aelodau ar gyfer y Pumed Cynulliad yn mynd rhagddo.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod o ran Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Diben yr addasiad yw sicrhau bod safbwynt gwir a theg o atebolrwydd y Cynllun yn cael ei gofnodi yn nhaenlen y Comisiwn; Gellir ond defnyddio'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol at y diben y'i bwriadwyd. Mae angen i'r Comisiwn gynyddu'r cyllid Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer 2015-16 er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r amcangyfrifon diweddaraf.

## 05. Cwmpas y Gyllideb

**01.** Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Cynulliad i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2016.

**02.** Nododd Comisiwn y Cynulliad ei ofynion o ran gwariant yn ei Gyllideb 2014-15 a gwmpasai'r cyfnod hyd at 2016. Mae cyllideb eleni (£50.9miliwn) yn adlewyrchu'r lefelau ariannu a nodwyd yn flaenorol.

**03.** Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

**04.** Nodir y gyllideb ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2014-15, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn, isod yn Nhabl 5.

| **Tabl 5** | **£000** |
|---|---|
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | **36,900** |
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau. | **14,500** |
| *Cyfanswm yr arian, ar wahân i arian cronnus* | ***51,400*** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â darparu Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | **1,200** |
| Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:<br><br>o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br><br>incwm o rent; anrhegion; cymorth grant; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad. | **300** |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfalaf Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adfer. | |

Mae tabl 6 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 6: Gofyniad Ariannol** | **£000 2015-16** |
|---|---|
| **Gofyniad Refeniw Net yr Aelodau** | 14,500 |
| **Gofyniad Refeniw Net y Comisiwn**[1] | 35,600 |
| **Gofyniad cyfalaf net** | 1,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | 1,200 |
| ***Addasiadau:*** | |
| **Dibrisiant** | (4,700) |
| **Newidiadau yn y ddarpariaeth** | (1,200) |
| **Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr** | 100 |
| **Defnydd o ddarpariaethau** | |
| Gofyniad ariannol net i'w gymryd o Gronfa Gyfunol Cymru | **46,500** |

[1] Incwm Cronnus Tybiedig o £0.300 miliwn o flwyddyn i flwyddyn.

# Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb


Mae Tabl 7 yn rhoi trosolwg o gyfanswm cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2015-16 ynghyd â blynyddoedd blaenorol er mwyn eu cymharu yn ystod tymor y Pedwerydd Cynulliad. Mae hefyd yn dangos y newidiadau cymharol mewn termau real o ran cyllideb Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Cymru a chyllideb y Comisiwn ar gyfer 2015-16. Mae Siart 8 yn dangos y symudiad yng nghyllideb y Comisiwn o 2014-15 i 2015-16.

**Tabl 7: Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2011-2016 v Bloc Cymru**

| | 2011-12 £000 | 2012-13 £000 | 2013-14 £000 | 2014-15 £000 | 2015-16 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Gweithredol y Comisiwn ac eithrio Buddsoddiadau** | 31,073 | 32,277 | 32,750 | 34,800 | 35,668 |
| **Rhaglen Fuddsoddi** | 600 | 1,200 | 2,300 | 1,700 | 732 |
| **Cyflogau a Lwfansau Aelodau** | 13,034 | 13,500 | 13,700 | 14,100 | 14,500 |
| **Cyfanswm Cyllideb Weithredol y Comisiwn** | 44,707 | 46,977 | 48,750 | 50,600 | 50,900 |
| **Costau sy'n Gysylltiedig â'r Etholiad** | 2,315 | - | - | - | 500 |
| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | 47,022 | 46,977 | 48,750 | 50,600 | 51,400 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol (GRF)** | 500 | 500 | 1,200 | 1,200 | 1,200 |
| **Cyllideb Diwedd Blwyddyn (DEL) Bloc Cymru** | 14,973,593 | 15,028,732 | 15,934,418 | 15,693,405 | 15,814,772 |
| **Comisiwn y Cynulliad fel canran Bloc Cymru** | 0.3% | 0.3% | 0.3% | 0.3% | 0.3% |

Y newid mewn termau real i Gomisiwn y Cynulliad yw gostyngiad o 1% o gymharu â gostyngiad o 0.8% ar gyfer Bloc Cymru.

**Siart 8: Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2014-15 v Drafft 2015-16**



# Atodiad 2: Gwybodaeth ariannol

## Meysydd gwariant yn ystod y Pedwerydd Cynulliad

| *Costau llety a chyfleusterau* | 2011-12 **Gwirioneddol £000** | 2012-13 **Gwirioneddol £000** | 2013-14 **Gwirioneddol £000** | 2014-15 **Cyllideb £000** | 2015-16 **Cyllideb £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prydlesi – adeiladau** | 2,204 | 2,812 | 2,837 | 2,835 | 2,835 |
| **Cynnal a chadw** | 1,716 | 1,971 | 1,934 | 1,655 | 1,625 |
| **Cyfraddau** | 1,285 | 1,356 | 716 | 1,356 | 1,272 |
| **Diogelwch** | 581 | 603 | 573 | 600 | 600 |
| **Cyfleustodau** | 506 | 518 | 507 | 557 | 537 |
| **Arlwyo** | 323 | 305 | 306 | 320 | 320 |
| **Prydlesi – ffotocopïwyr** | 127 | 161 | 134 | 150 | 150 |
| **Parcio** | 99 | 115 | 105 | 120 | 120 |
| **Dodrefn a ffitiadau** | 68 | 79 | 268 | 50 | 50 |
| | | | | | |
| *Costau TGCh* | | | | | |
| **Gwasanaethau TGCh o dan gontract allanol, gan gynnwys ffonau** | 2,856 | 2,558 | 2,669 | 1,861 | 498 |
| **Gwasanaethau darlledu** | 433 | 475 | 578 | 460 | 490 |
| **Costau trwyddedu a chynnal a chadw** | 289 | 385 | 520 | 640 | 740 |
| **Prosiectau TGCh** | 147 | 215 | 795 | - | 770 |
| **Gwasanaethau'r wefan** | 176 | 121 | 117 | 130 | 130 |
| **Cyllid TGCh a chynnyrch treuliadwy** | 63 | 90 | 292 | 130 | 130 |
| | | | | | |
| *Costau eraill* | | | | | |
| **Treuliau gweinyddol eraill** | 61 | 343 | 202 | 240 | 214 |
| **Gwasanaethau iaith o dan gontract allanol** | 116 | 204 | 276 | 273 | 263 |
| **Argraffu, Offer Papur Swyddfa a Phostio** | 181 | 203 | 242 | 259 | 277 |
| **Yswiriant a Chyngor Arbenigol** | 109 | 195 | 130 | 130 | 131 |
| **Cyhoeddiadau** | 174 | 110 | 102 | 129 | 110 |
| **Gwasanaeth Cyfrifo ac Ariannol** | 126 | 92 | 77 | 25 | 25 |
| **Archwilio** | 82 | 87 | 128 | 84 | 93 |
| **Cynghorwyr y Pwyllgorau** | 71 | 57 | 117 | 50 | 50 |
| **Lletygarwch** | 31 | 37 | 45 | 45 | 35 |
| | | | | | |
| *Costau hyfforddiant a datblygu* | 194 | 250 | 384 | 390 | 380 |
| *Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth* | 170 | 178 | 217 | 452 | 368 |
| *Costau teithio a chynhaliaeth staff* | 92 | 136 | 128 | 138 | 134 |
| *Costau AD eraill* | 1,035 | 211 | 113 | 103 | 103 |
| *Costau Etholiad* | 442 | - | - | - | 500 |
| *Taliadau dibrisiant ac amorteiddiad* | 3,781 | 3,942 | 3,734 | 4,400 | 4,700 |
| | 17,538 | 17,809 | 18,246 | 17,580 | 17,650 |
| **Incwm** | (190) | (165) | (281) | (300) | (300) |

Mae'r ffigurau gwirioneddol wedi'u tynnu o Nodyn 2 y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno

# Atodiad 3: Geirfa

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Dull o gategoreiddio gwariant a gedwir ar gyfer eitemau llai disgwyliadwy ac sy'n anos eu rheoli. Dim ond at y diben y cafodd ei neilltuo y gellir ei ddyrannu.

### Fformiwla Barnett

Fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu cyfran yn seiliedig ar y boblogaeth o'r newid mewn gwariant wedi'i gynllunio ar wasanaethau tebyg gan adrannau Llywodraeth y DU i'r deddfwrfeydd datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

### Cyllideb

Mae'n pennu'r adnoddau a'r arian parod y cynigir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol ddilynol a'r ffigurau mynegol ar gyfer y blynyddoedd ariannol wedi hynny.

### Gwariant Cyfalaf

Expenditure that generally results in a fixed asset (e.g. A building, equipment or land) intended to benefit future accounting periods, or spend that increases the capacity, economy, efficiency or lifespan of an existing fixed asset.

### Credydwr

Sefydliad neu unigolyn yr ydych wedi ymrwymo i'w dalu am gynnyrch neu wasanaethau a gafwyd.

### Dyledwr

Sefydliad neu unigolyn sydd wedi'i ymrwymo i'ch talu am gynnyrch neu wasanaethau yr ydych wedi eu darparu iddo.

### Depreciation

Mesur o'r defnydd neu'r gorddefnydd o ased sefydlog, neu leihad yn ei oes ddefnyddiol.

### Cyllideb

Mae'n pennu'r adnoddau a'r arian parod y cynigir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol ddilynol a'r ffigurau mynegol ar gyfer y blynyddoedd ariannol wedi hynny.

### Asedau sefydlog

Eitemau a brynir sydd ag oes ddisgwyliedig sy'n hwy na blwyddyn at fudd busnes, fel tir, adeiladau a chyfarpar.

### Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Deddf Senedd y DU sy'n diwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn ei gwneud yn haws i bwerau pellach gael eu trosglwyddo iddo. Mae'r Ddeddf yn creu system lywodraethu sydd â gweithrediaeth ar wahân a ddaw o'r ddeddfwrfa ac sy'n atebol iddi.

### Darpariaethau

Mae darpariaeth yn rhwymedigaeth nad oes amserlen na swm penodol iddi. Caiff cost ei chydnabod yng Nghyfrif Adnoddau'r Comisiwn pan fydd rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan fydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth hon, a phan ellir rhoi amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

### Termau real

Gwerth y gwariant sydd wedi'i addasu ar sail chwyddiant cyffredinol mewn prisiau. Mae'n galluogi cymariaethau o'r gwariant ar draws blynyddoedd i gael eu gwneud heb yr ystumiad a berir gan newidiadau mewn prisiau.

### Costau Refeniw/Rhedeg

Y gwariant presennol ar gostau rhedeg dyddiol, fel cyflogau staff a phrynu cynnyrch treuliadwy a gwasanaethau.

### Gwerth am Arian

Y broses a ddefnyddir gan sefydliad ar gyfer gwerthuso ac asesu prosesau caffael, prosiectau a phrosesau mewn modd systematig i ennyn hyder ynghylch addasrwydd, effeithiolrwydd, gochelgarwch, safon a gwerth, ac os llwyddwyd i osgoi camgymeriadau a gwastraff arall, a fernir ar gyfer y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

### Costau Amrywiol

Treuliau sy'n newid ar sail gweithgareddau'r sefydliad.

### Bloc Cymru

Arian bloc grant a gyfrifir gan ddefnyddio Fformiwla Barnett, y mae'r Senedd yn pleidleisio arno i'w roi i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer yr arian a ddaw i Gymru.

### Cronfa Gyfunol Cymru

Crëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n gyfrif banc niwtral a gedwir gan y Tâl-feistr Cyffredinol. Dyma'r cyfrif y mae'r arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno yn cael ei dalu i mewn iddo i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Public Accounts Committee**

Jocelyn Davies
Chair of the Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff CF99 1NA

25 September 2014

Dear Jocelyn,

As you will be aware, the Public Accounts Committee is currently undertaking a series of sessions scrutinising the 2013-14 accounts of a number of publically-funded bodies. On Tuesday 23 September we scrutinised the accounts of the Commission of the National Assembly for Wales and, given that you are taking evidence from the Commission on their 2015-16 Budget on Thursday, 2 October, I thought I would write to give some initial reflections on issues arising from our session with the Commission.

Generally, the Committee welcomed the Commission's openness and the detail available in their accounts to satisfy ourselves that their budget had been used effectively.

The Commission benefited from a financial settlement in 2013-14 that was far more generous than other bodies funded from the Welsh Block. We heard that this had allowed the Commission to make investments that would allow savings to be realised in future years, particularly in information technology and translation services. Your Committee may wish to consider where the demands on the Commission's Budget will be lessened by prior years' investment and if efficiencies will indeed be realised.

The Committee had a number areas of particular concern around the Commission's use of resources: one relating to an incidence of fraud, which led to £104,000 of the Commission's Budget being lost due to a mispayment caused by deception; the second was in the management of a payroll project, where overall project costs were expected to be £100,000, or 25 per cent, greater than had been anticipated. While the Commission indicated that new practices had been put in place to monitor payments and strengthen project management, your Committee may wish to satisfy itself that the lessons learned preclude similar issues arising again in future years.

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel:02920898041
Pwyllgor.CyfrifonCyhoeddus@cymru.gov.uk / PublicAccounts.Committee@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

In addition to the above the Commission's policy of delivering its outturn within one per cent of its Budget was examined. Members questioned whether such a policy promoted more maximalist spending practices within the set Budget, rather than achieving greatest value for money for the taxpayer. The Commission were confident they had not spent their Budget unnecessarily, but you may wish to explore whether this policy fails to incentivise economical use of public money – and whether therefore a smaller Budget may be necessary to achieve reduced public expenditure.

Finally, we discussed that it would be helpful for your Committee to bear in mind the large variance in many cases between the Commission's Budget, both as Approved and as Revised, and the Final Outturn reported in their accounts. The Commission argued that this did not reflect poor budgeting practices, as underspends had been identified and reallocated effectively during the year. However, you may wish to seek assurances that the Budget you scrutinise and ultimately approve is an accurate forecast of how the Commission expects to use its resource in the next financial year.

I trust that this is helpful in supporting your Committee's scrutiny.

Kind regards,

**Darren Millar AM**
**Chair**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel:02920898041
Pwyllgor.CyfrifonCyhoeddus@cymru.gov.uk / PublicAccounts.Committee@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2015-16

***Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog Cyllid***

***Medi 2014***

**Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft**

1. Bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12, yn nodi’r gyllideb ddrafft ar gyfer y Llywodraeth a osodwyd ar 30 Medi, yn unol â Rheol Sefydlog 20.7.

Gweinidogion Cymru

2. Mae Gweinidogion Cymru’n cynnig

(a) defnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2016 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o’r Atodlen honno;

(b) yn ogystal, cadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2016, i’w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) cymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

3. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a’r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo’n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na’r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo’n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronnus, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronnus.

4. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2016 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o’r Atodlen honno.

5. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronnus a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2016 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o’r Atodlen honno.

6. Mae’r cynigion hyn ar gyfer y gyllideb ddrafft yn rhoi manylion y symiau o adnoddau ac arian parod y mae’r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer 2015-16 yn unig. Blwyddyn ariannol 2015-16 yw’r olaf yng nghyfnod Adolygiad o Wariant presennol y DU, a’r flwyddyn olaf y mae gennym ddyraniad pendant ar ei chyfer.

Er gwybodaeth – Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon

7. Mae'r gweithdrefnau cyllideb ar gyfer Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("y cyrff a ariennir yn uniongyrchol") yn cael eu rheoli gan Reolau Sefydlog 20.13 i 20.24. Caiff y cyllidebau ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol eu cynnwys fel rhan o gynnig y gyllideb flynyddol a gyflwynwyd gan y Gweinidog Cyllid ar 26 Tachwedd 2013 neu cyn hynny.

8. Mae symiau'r adnoddau (heblaw adnoddau cronnus) y mae'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn cynnig eu defnyddio yn 2015-16 wedi eu cynnwys yn Atodlen 3; mae symiau'r adnoddau cronnus y mae'r cyrff hynny yn cynnig eu cadw a'u defnyddio ar wasanaethau a dibenion penodedig wedi eu cynnwys yn Atodlen 4; ac mae'r symiau o arian parod y cynigir eu dyrannu o Gronfa Gyfunol Cymru i'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol wedi eu cynnwys yn Atodlen 5.

9. Nid yw'r symiau hyn yn rhan o Gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Maent yn cael eu cynnwys yn Atodlenni 3, 4 a 5 er gwybodaeth ac at ddiben cysoni'r adnoddau a ddyrennir i gyllideb bloc Cymru, a'r amcangyfrif o'r swm o arian parod a delir i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru, â'r adnoddau a'r arian parod a fydd yn cael eu hawdurdodi i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Gyda'i gilydd mae'n bosibl gweld cyfanswm Cyllideb ddrafft Cymru.

10. Mae'r symiau ar gyfer y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn deillio o'r ffynonellau canlynol:

(a) mae ffigurau Comisiwn y Cynulliad wedi'u cymryd o'r amcangyfrifon fel y'u gosodwyd gerbron y Cynulliad ar 13 Tachwedd 2013
(b) mae ffigurau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn deillio o'r amcangyfrif ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid ar 31 Hydref 2013
(c) mae ffigurau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cymryd o'r amcangyfrif a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid i'w ystyried ar 3 Hydref 2013

## Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

***Gweinidogion Cymru***

| Cwmpas | Adnoddau (£000) | Adnoddau Cronnus (£000) |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,605,841 | 1,000,999 |
| Llywodraeth Leol | 3,460,294 | 300 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 706,154 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 1,130,997 | 76,371 |
| Addysg a Sgiliau | 2,014,451 | 183,918 |
| Cyfoeth Naturiol | 391,574 | 359,563 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 328,408 | 561,644 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru** | **13,637,719** | **2,182,795** |

*Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol*

| Cwmpas | Adnoddau (£000) | Adnoddau Cronnus (£000) |
|---|---|---|
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 51,655 | 205 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,009 | 6 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 5,974 | 17,639 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **61,638** | **17,850** |

## Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyllid adnoddau a chyfalaf i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig; Cyfalaf Difidend Cyhoeddus i Ymddiriedolaethau'r GIG; benthyciadau i Ymddiriedolaethau'r GIG; taliadau am wasanaethau o dan gontract gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, offthalmig a fferyllol; gwasanaethau meddygol cyffredinol; cymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant; ymchwil a datblygu; gwasanaethau iechyd meddwl; triniaeth ar gyfer clefydau cronig; a mesurau i fynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd; cyllid ar gyfer Cronfa Risg Cymru; cyllid i gefnogi plant a'u teuluoedd, gan gynnwys sefydliadau plant a theuluoedd; Grantiau i gyflenwi'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a chymorth i'r Asiantaeth Safonau Bwyd; cymorth i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac i wasanaethau cymdeithasol a gofalwyr; gwella gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys ariannu Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE); i Gyngor Gofal Cymru; y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE); y Comisiynydd Pobl Hŷn; a chyfraniadau i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol y DU.<br><br>Cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru; cyllid ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd neu ar eu rhan; gwasanaethau ar gyfer gwella iechyd ac ar gyfer atal salwch, gwneud diagnosis ohono a'i drin; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **5,605,841** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Llywodraeth Leol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym meysydd llywodraeth leol a chyflenwi gwasanaeth cyhoeddus a hyrwyddo diogelwch cymunedol. Arian wedi'i neilltuo a heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau unedol llywodraeth leol; comisiynwyr yr heddlu a throseddu ac awdurdodau'r gwasanaeth tân ac achub, drwy gyllid grant heb ei neilltuo drwy gyfrwng grant cynnal refeniw, ardrethi annomestig cenedlaethol (NNDR) wedi'u hailddosbarthu a chyllid cyfalaf cyffredinol neu ddull ar wahân o ddarparu adnoddau a chyllid grant cyfalaf at ddiben polisi penodedig sy'n berthnasol i'r meysydd uchod o weithgarwch. Cyllido a noddi cyrff cyhoeddus a sefydliadau anstatudol sydd â swyddogaethau'n ymwneud ag archwilio, rheoleiddio ac arolygu; hyrwyddo a chynrychioli democratiaeth; datblygu perfformiad a rheoli newid; hybu a chynnal safonau ac atebolrwydd (gan gynnwys swyddogaethau llys apêl); darparu canlyniadau; a gwella perfformiad mewn perthynas â llywodraeth leol. Cyllid ar gyfer costau rhaglen, costau staffio a chostau gweinyddol cyffredinol (gan gynnwys costau prydlesu) yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, noddi Estyn gan gynnwys costau staff a gwariant gweinyddol cyffredinol a dibrisiant ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. Ariannu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol mewn perthynas â diogelwch a datblygu cymunedol; gwaith i gefnogi'r lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd; gwrthsefyll camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol; atal pobl ifanc rhag troseddu, a gwariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. Arian cyfatebol o dan Flaenoriaeth 4 o Gronfa Gymdeithasol Ewrop; cymorth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. | **3,460,294** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym maes Cefnogi Cymunedau a Phobl gan gynnwys adfywio a datblygu cymunedau, ariannu cyrff y Trydydd Sector; mentrau Trechu Tlodi; cefnogi Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; datblygu cymunedol; datblygu cyrff gwirfoddol a gwirfoddoli; cynhwysiant ariannol, gan gynnwys undebau credyd; cynhwysiant digidol; swyddfeydd post; gwiriadau'r Biwro Cofnodion Troseddol; ac ariannu a gweinyddu prosiectau diwygio lles.<br><br>Arian ar gyfer cymorth i blant a'u teuluoedd, gan gynnwys arian ar gyfer Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Comisiynydd Plant Cymru, strategaethau tlodi plant, gofal plant, chwarae, hawliau plant a phobl ifanc, cyfranogi ac eiriolaeth, cyrff plant a theuluoedd, cymorth i awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector preifat at ddibenion gofal plant a chymorth i ofal plant y tu allan i'r ysgol a gofal cofleidiol.<br><br>Arian ar gyfer cefnogi a hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag ariannu rhaglenni ar gyfer cydraddoldeb a chyfle cyfartal; ar gyfer gwella cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod.<br><br>Arian ar gyfer Tai ac Adfywio, gan gynnwys hybu neu wella diwylliant a lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol, rhoi cyllid, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol, asiantaethau a chyrff eraill er mwyn hybu, hwyluso a darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn perthynas â Thai ac Adfywio; gwella cyflenwad ac ansawdd y tai sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys safon tai'r awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a gwella'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai; caffael, lesio, datblygu a chynnal a chadw tir ac adeiladau; trosglwyddo stoc tai; cymorth ar gyfer modelau cymunedol cydfuddiannol ac er mwyn meithrin gallu; tai cymdeithasol; cymorth ar gyfer gwaith adfywio ffisegol gan gynnwys ardaloedd adnewyddu tai a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth; cefnogi pobl; atal a mynd i'r afael â digartrefedd; darparu arian ar gyfer gwaith addasu a chyfleusterau er mwyn i bobl fedru aros yn eu cartrefi eu hunain; rheoleiddio ac arolygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; polisi adfywio a gweinyddu polisïau ac arian gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i fusnesau, | **706,154** |

| | |
|---|---|
| unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru; trosi a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU a deddfwriaeth a rhwymedigaethau Ewropeaidd a rhyngwladol; gweinyddu a chyflawni prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso; hybu a chyhoeddusrwydd a gwasanaethau; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ar gyfer busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.<br><br>Ar gyfer darparu arian adnoddau a chyfalaf i helpu sefydlu, twf, datblygiad a chynaliadwyedd busnes a thwristiaeth yng Nghymru.<br><br>Gwariant yn ymwneud â chefnogi diwylliant, chwaraeon, y cyfryngau, cyhoeddi, a’r amgylchedd hanesyddol a naturiol gan gynnwys ariannu Amgueddfa Cymru; arian i Lyfrgell Genedlaethol Cymru; arian i Gyngor Celfyddydau Cymru; arian i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru; arian i Chwaraeon Cymru a sefydliadau eraill sy’n hybu chwaraeon a ffyrdd egnïol o fyw ledled Cymru; Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a sefydliadau eraill sy’n ceisio hybu ac ehangu mynediad i drysorau diwylliannol, adeiladau a lleoedd sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol yng Nghymru; a’u gwarchod, eu diogelu, eu cynnal a’u cyflwyno, ac unrhyw wariant cysylltiedig arall a defnydd heb fod yn arian parod.<br><br>Cyllid adnoddau a chyfalaf ar gyfer trafnidiaeth ffyrdd, gan gynnwys adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a gwella cefnffyrdd yng Nghymru; darparu gwasanaethau teithio ar y rheilffyrdd a theithio awyr; diogelwch ar y ffyrdd; rheoleiddio croesfannau i gerddwyr a pharcio ar y stryd; ariannu a gweinyddu rhaglenni i awdurdodau lleol a chyrff eraill er mwyn darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau trafnidiaeth gan gynnwys tocynnau teithio rhatach; cymorth i hyrwyddo a datblygu cerdded a beicio; ac unrhyw wariant cysylltiedig arall, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod sy’n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru.<br><br>Ad-daliadau cyfalaf i’r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol. | **1,130,997** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Addysg a Sgiliau**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg a Sgiliau er mwyn ariannu: gwella llythrennedd a rhifedd; ymestyn hawliau a llwybrau dysgu 14-19; y Cyfnod Sylfaen; gwelliannau i'r cwricwlwm; cefnogaeth i Techniquest; hyfforddi, datblygu a chefnogi athrawon; datblygu a rheoleiddio cymwysterau; arian cyfalaf ac adnoddau i Gymwysterau Cymru, darpariaeth adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 gan gynnwys addysg bellach, prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith; arian cyfalaf ac adnoddau ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; cefnogi addysg feddygol i israddedigion; gwella perfformiad ysgolion; ariannu arolygiadau; cymorth i godi safonau a gwella effeithiolrwydd ysgolion; y grant amddifadedd disgyblion; arian cyfalaf ac adnoddau ar gyfer datblygu TG ym maes dysgu; cyfalaf i gefnogi'r seilwaith ysgolion a'r seilwaith ôl-16; datblygu sgiliau a dysgu yn y gweithle; gwasanaethau cyngor ar yrfaoedd; cefnogi'r Gwasanaeth Ieuenctid; cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant; cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol, darparu llaeth mewn ysgolion; cyllid i ddysgwyr a myfyrwyr gan gynnwys costau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r Lwfansau Cynhaliaeth Addysg; trechu dadrithiad; dysgu dwyieithog; cymorth i Gomisiynydd y Gymraeg, a grantiau a phrosiectau sy'n hybu'r Gymraeg; cymorth i fentrau addysg ryngwladol; ymchwil addysgol a gwerthuso addysg; hybu addysg a sgiliau; eitemau cysylltiedig heb fod yn arian parod ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **2,014,451** |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Cyfoeth Naturiol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Gyfoeth Naturiol, gan gynnwys hybu a gwella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol gan gynnwys yr amgylchedd ac ynni ac ynni adnewyddadwy; darparu arian, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol; asiantaethau a chyrff eraill i hybu, hwyluso a chyflenwi ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn cysylltiad â Chyfoeth Naturiol, tirwedd a hamdden awyr agored; rhoi cyllid i gynorthwyo gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli, eu gwella a'u defnyddio yn sylweddol; hybu a chyflawni cynaliadwyedd, newid yn yr hinsawdd ac ansawdd yr amgylchedd; cynorthwyo a hybu cynhyrchu ynni drwy ddulliau carbon isel; effeithlonrwydd ynni, rheoli adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy a gwella ansawdd dŵr; darparu ac ariannu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir a mesurau rheoli risg; darparu cyllid a chymorth ar ffurf benthyciad a chyngor sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd, rheoli dŵr a rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol; darparu cyllid, cymorth a chyngor sy'n ymwneud â rheoli gwastraff ac adnoddau mewn ffordd gynaliadwy; atal, gwaredu, casglu a rheoli gwastraff, cynlluniau ailgylchu, glanhau strydoedd a chredydau treth tirlenwi; rheoli ymbelydredd, llygredd amgylcheddol, ansawdd yr amgylchedd a llygredd sŵn; hybu bioamrywiaeth, rheoli adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem; cadwraeth; iechyd anifeiliaid a phlanhigion; hadau, plaladdwyr a chnydau GM; iechyd y cyhoedd; mesurau i liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector diwydiannau'r tir; gweinyddu polisïau a grantiau gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i fusnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru; trosi a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU, Ewrop ac yn rhyngwladol; gweinyddu a chyflenwi prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso; hyrwyddo, cyhoeddusrwydd a gwasanaethau; rhoi cymorth ariannol i gefnogi'r dirwedd a datblygu cyfleusterau ar gyfer hamdden agored a mannau gwyrdd a'u hyrwyddo; arian i'r Parciau Cenedlaethol; prosiectau sy'n ymwneud â Pharciau Cenedlaethol Cymru; datblygu a monitro rheoliadau, deddfwriaeth, polisi, gweithdrefnau, cyngor technegol a safonau ym maes cynllunio ac adeiladu; comisiynu ymchwil, cyhoeddi adroddiadau a chanllawiau; penderfynu ar apelau a gwaith achos arall, a noddi'r Arolygiaeth Gynllunio; rhoi cyllid a chymorth grant, gan gynnwys y Gronfa Ardoll Agregau; arian i gefnogi a hybu prosiectau a mentrau Polisi, Cynllun a Siarter | **391,574** |

| | |
|---|---|
| Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru<br><br>Gwariant yn ymwneud ag Amaethyddiaeth, Datblygu Gwledig, gweithgareddau Pysgodfeydd a'r Môr, Lles ac Olrhain Anifeiliaid, Rheoli Tir a Choetiroedd; gweithgareddau goruchwylio clefydau ac unrhyw wariant cysylltiedig arall a defnydd heb fod yn arian parod. | |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**<br><br>I'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar wariant sy'n gysylltiedig â gweinyddu a chostau rhedeg gan gynnwys: costau a threuliau staff; costau rhedeg yr ystâd sifil a buddsoddi ynddi; gwariant gweinyddol cyffredinol; gwariant ar TG a chyfathrebu; gwariant ar raglenni gwella busnes; gwariant adnoddau a chyfalaf gweinyddol arall; penodiadau cyhoeddus; galluogi a hybu llywodraeth agored; cefnogi gwaith ymchwil a gwerthuso; hybu lles economaidd, ffisegol, cymdeithasol neu amgylcheddol; rheoli digwyddiadau cyfathrebu corfforaethol mewnol, ynghyd â'r gwaith o gyfathrebu polisïau a chamau gweithredu'r Llywodraeth yn allanol; cyllid ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol, gan gynnwys y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, ac ar gyfer datblygu cyfansoddiadol, gan gynnwys costau unrhyw refferendwm; cynnal digwyddiadau o bwys cenedlaethol; costau ymchwiliadau cyhoeddus; cost tribiwnlysoedd; cyllid i gyrff y sector cyhoeddus ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd; ariannu Gwerth Cymru, cyfnewidcymru a Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru; taliadau i gefnogi datblygu tramor a chysylltiadau tramor; grantiau a chymorth ariannol i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; cefnogi prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd; gweinyddu a chyflenwi prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **328,408** |

## Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronnus gan Weinidogion Cymru

### Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y ceir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; incwm o hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013: cynlluniau creu incwm; Incwm Yswiriant Gwladol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo; ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **1,000,999** |

**Rhan 2: Llywodraeth Leol**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian grant oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd; ad-daliadau ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; taliadau am gofrestriadau deintyddol; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o rentu eiddo; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; incwm o werthiant asedau cyfalaf. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau'r Arolygiaethau a'r Tribiwnlys Prisio; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru; gwariant ategol ar gymunedau mwy diogel ac adfywio; talu grantiau i awdurdodau lleol a chyrff y Trydydd Sector; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **300** |

**Rhan 3: Cymunedau a Threchu Tlodi**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus gan gynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a chostau gwasanaethau arolygu a rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-dalu benthyciadau staff; incwm o werthu asedau cyfalaf; incwm a ddaw o ad-daliadau'r Grant Tai Cymdeithasol; adennill grantiau gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat; incwm rhenti; derbyniadau o werthu asedau, cyllid gan adrannau llywodraeth eraill ac adennill TAW; arian drwy gynlluniau cyllido Ewropeaidd a chynlluniau cyllido eraill; adennill grantiau neu setliadau mewn perthynas â thaliadau grant; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill; ac adennill TAW. | Talu grantiau i awdurdodau lleol a chyff y Trydydd Sector; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; gwariant, taliadau grant a chynlluniau Tai Cymdeithasol a gefnogir yn rhannol gan adrannau llywodraeth eraill; gwariant a chynlluniau tai'r farchnad; gwariant ar gynlluniau Adfywio; a phob prosiect a noddir gan Ewrop, ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **0** |

**Rhan 4: Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus ac arian naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall; taliadau gwasanaethau busnes; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; incwm yn gysylltiedig â gweithgarwch twristiaeth; derbyniadau o astudiaethau trafnidiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; incwm Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru o godi tâl mynediad ar eu safleoedd a gwariant gweithredol arall, ac adennill TAW. | Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **76,371** |

**Rhan 5: Addysg a Sgiliau**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o brosiectau Ewropeaidd, ymchwil a gwerthuso a datblygu sgiliau busnes; breindaliadau cwricwlwm a chymwysterau; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cefnogi prosiectau Ewropeaidd, CQFW, datblygu rhaglenni, datblygu sgiliau busnes, a gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; cefnogi gwariant cyfredol ar y cwricwlwm a chymwysterau a chefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **183,918** |

**Rhan 6: Cyfoeth Naturiol**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd, incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllpeiran neu werthu asedau cyfalaf; incwm o adennill grant o'r awdurdodau lleol, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill y sector preifat; dirwyon cosb sifil yn gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau; incwm o drwyddedau morol; incwm o achub carcasau o anifeiliaid sydd wedi'u lladd ar gyfer rheoli clefydau; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; derbyniadau o werthu asedau gan gynnwys adeiladau, arian o adrannau eraill y llywodraeth ganolog ac incwm sy'n gysylltiedig â Chyfoeth Naturiol. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â Fferm Pwllpeiran, taliadau grant, cynlluniau a ariennir yn rhannol gan adrannau eraill o'r llywodraeth; gwariant ar bob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **359,563** |

**Rhan 7: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o secondio staff a ffioedd staff; ad-dalu benthyciadau staff; ad-dalu didyniadau statudol o dan PAYE; adennill TAW; gwerthu tir ac adeiladau; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwerthu nwyddau a gwasanaethau; incwm gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarperir; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill y costau a rennir â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus; derbyniadau o grantiau adenilladwy gan gynnwys derbyniadau Buddsoddi i Arbed; a chyllid (boed uniongyrchol neu anuniongyrchol) oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu costau rhedeg a gwariant gweinyddol cyffredinol; cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth y Cynulliad; a phob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **561,644** |

## Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronnus)

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau i'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol a gwariant yn ymwneud â darpariaeth pensiynau Aelodau'r Cynulliad. | **51,655** |

### Rhan 2 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu swyddfa'r Ombwdsmon; taliadau i gymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon; taliadau i'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol; ac eitemau cysylltiedig nad ydynt yn arian parod. | **4,009** |

**Rhan 3 – Archwilydd Cyffredinol Cymru**

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr sydd wedi'u penodi gan lywodraeth leol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | **5,974** |

## Atodlen 4 – Defnydd o Adnoddau Cronnus gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o werthu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall; incwm rhenti; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog ac i'w defnyddio i dalu costau gweinyddol y Cynulliad. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **205** |

### Rhan 2 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig ac ar weinyddu gwasanaeth yr Ombwdsmon. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **6** |

**Rhan 3 – Archwilydd Cyffredinol Cymru**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (heb gynnwys gwaith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol); adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; amryfal incwm o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; adennill costau staff wedi'u secondio; ad-daliadau benthyciadau i staff; adennill taliadau lesio ceir; a llog a dderbynnir ar ffioedd y fantolen waith. | I'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **17,639** |

## Atodlen 5: Cysoni Adnoddau ag Arian Parod 2015-16 (£000)

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 12,820,394 | 50,496 | 3,996 | 5,876 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 817,325 | 1,159 | 13 | 98 |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -121,647 | -4,900 | -64 | 0 |
| Amhariadau | -60,141 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -106,898 | -500 | -47 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y dyledwyr/credydwyr | 0 | 0 | 20 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 266 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,349,033** | **46,255** | **4,184** | **5,974** |

**Nodiadau:**

1. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.7 sy'n datgan bod yn rhaid i'r gyllideb ddrafft nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

2. Mae'r tablau canlynol a ddarperir yn Atodlenni 6 a 7 yno er gwybodaeth ac maent yn dilyn fformat cynnig y gyllideb flynyddol.

**Atodlen 6: Cysoni'r adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig am y gyllideb â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Bloc Cymru ar gyfer 2015-16**

| | **2015-16 (£000)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Refeniw** | **DEL Cyfalaf** | **AME Refeniw** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng nghynnig y gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 12,736,703 | 411,876 | 83,691 | 405,449 | 13,637,719 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 49,746 | 1,159 | 750 | 0 | 51,655 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 5,876 | 98 | 0 | 0 | 5,974 |
| - Ombwdsmon | 4,215 | 13 | -219 | 0 | 4,009 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yn y Gyllideb Ddrafft** | **12,796,540** | **413,146** | **84,222** | **405,449** | **13,699,357** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol | 176,847 | 0 | 107,313 | 0 | 284,160 |
| (ii) Grantiau | -929,363 | 929,363 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Arall | 1,918,075 | 0 | 0 | 0 | 1,918,075 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yn y Gyllideb Ddrafft** | **1,165,559** | **1,018,163** | **107,313** | **0** | **2,291,035** |
| - Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,338 | 0 | 0 | 0 | 2,338 |
| - Swyddfa Cymru | 4,407 | 25 | 0 | 0 | 4,432 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 345,562 | 74,072 | 0 | 0 | 419,634 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **14,314,406** | **1,505,406** | **191,535** | **405,449** | **16,416,796** |

**Nodiadau:**

1. Mae cyfanswm gofyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru am adnoddau yn gyfwerth â chyfanswm y dyraniadau a gynhwyswyd yn y Cwmpasau yn Atodlen 1.

2. Dywed Rheol Sefydlog 20.28 (ii) y dylai cynnig y gyllideb flynyddol gynnwys yr adnoddau y mae'r Trysorlys yn cytuno arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymdrin â hi. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

3. Dywed Rheol Sefydlog 20.28 (iii) fod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi i'w defnyddio yn y cynnig am y gyllideb. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

4. Dyma'r taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru:

| **Eitem** | **2015-16**<br>**£000** |
|---|---|
| Taliadau i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol | 1,666 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 239 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Ombwdsmon | 191 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Archwilydd Cyffredinol | 193 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru | 27 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Comisiynydd Safonau | 22 |
| Incwm Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | -962,000 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy | 962,000 |
| **Cyfanswm** | **2,338** |

## Atodlen 7: Cysoni'r llif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru â'r arian parod y gofynnir amdano yn y cynnig am y gyllideb (£000)

| | **2015-16** |
|---|---|
| Amcangyfrif o'r symiau net i'w talu i Weinidogion Cymru: | |
| Grant i'w dalu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 (1) | 13,619,238 |
| Taliadau gan Adrannau Llywodraeth eraill | 941,985 |
| Taliadau o ffynonellau eraill | 2,202,810 |
| **Amcangyfrif o'r Symiau i'w Talu i Weinidogion Cymru** | **16,764,033** |
| Llai'r symiau a awdurdodwyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru | -2,182,795 |
| Llai'r symiau i'w cadw yng Nghronfa Gyfunol Cymru | -962,000 |
| **Symiau Sydd ar Gael i'w Dyrannu o Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,619,238** |
| Dosbarthwyd fel a ganlyn: | |
| - Gweinidogion Cymru | 13,349,033 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 46,255 |
| - Ombwdsmon | 4,184 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 5,974 |
| **Arian a Ryddheir o Gronfa Gyfunol Cymru yn y Cynnig** | **13,405,446** |
| *Plws:* | |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,338 |
| Cronfeydd heb eu clustnodi | 211,454 |
| **Amcangyfrif o Gyfanswm y Taliadau** | **13,619,238** |

**Nodiadau:**

1. Mae Adran 125(3) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gael ei ategu gan ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion, yn dangos:

   i. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 118(1);
   ii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan Weinidogion y Goron ac adrannau'r llywodraeth; a
   iii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol heblaw gan Weinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth.

2. Mae'r atodlen uchod yn dangos amrywiadau yn y symiau hyn fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.31

**Medi 2014**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon